

ECO'R WYDDFA

Rhif 220

CHWEFROR 1996

Pris 25c.

MAE'R GAEAF WEDI DOD



Rhai o blant Bethel yn mwynhau bod yn yr eira.

GAIR O DDIOLCH O RWMANIA



Rhys Williams yn darllen llythyr Pavel Popa.

Yn ôl pob sôn fe anfonwyd dros chwarter miliwn o focus i blant mewn angen drwy'r byd gan ymgyrch Apêl Plentyn y Nadolig (*Operation Christmas Child*) dros gyfnod y Nadolig. Bu sawl ymgyrch arbennig gan fudiadau a chymdeithasau o'r ardal hon ac yn eu plith gwelwyd 150 o focus yn cael eu hanfon gan Ysgol Llanrug.

Bellach mae'r plant a anfonodd llythrau yn eu bocsus wedi dechrau cael atebion. Un ohonynt yw Rhys Williams o Ffordd Crawia, Llanrug. Saith oed yw Rhys ac mae o wedi derbyn llythyr gan fachgen o'r enw Pavel Popa o dref Alba-Iulia yng ngwlad Romania yn diolch iddo am ei garedigrwydd. Mae Rhys yn bwriadu ysgrifennu yn ôl i'w gyfaill newydd pan gaiff gyfle.

Efallai y cawn glywed am llythrau eraill a dderbyniodd plant o'r fro. Mae'n sicr fod caredigrwydd plant a rhieni'r ardal wedi cael ei deimlo ar draws y byd dros y Nadolig diwethaf.

Clywyd cryn dipyn am y Loteri Cenedlaethol yn ddiweddar. Roedd y symiau anferth oedd ar gael i'w hennill yn destun sgwrs ym mhobman, ac yn destun llawer dadl. Bu llawer o sôn hefyd am y defnydd a wneir o'r arian gyda llawer yn dadlau mai ardaloedd de-ddwyrain Lloegr sy'n elwa fwyaf. Beth bynnag fo'r gwir am hynny mae'n ymddangos bellach fod ardal yr *Eco* am ennill yn go sylweddol o'r coffrau. Dyna yw gobaith swyddogion y Parc Cenedlaethol wedi i Awdurdod y Parc gytuno i gyflwyno cais am £8½ miliwn o gronfa'r Milenium i gyllido cynllun i adeiladu canolfan ymwelwyr o safon uchel ar gopa'r Wyddfa. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys adeilad llai ger gorsaf Clogwyn.

Mae'r adeilad presennol ar y

copa yn dyddio o 1935 a'r cam cyntaf yw paratoi cynllun manwl o adeilad newydd yn ei le. Mae swyddogion y Parc o'r farn fod y bwriad yn ateb gofynion Cronfa'r Milenium ac yn nodi mai bwriad y ganolfan fydd cyflwyno gwybodaeth i bobl am Gymru ac am Eryri gan eu haddysgu a'u diddanu ar yr un pryd.

Cwmni Rheilffordd yr Wyddfa yw tenantiaid presennol yr adeiladau ar y copa. Maent yn croesawu'r bwriad, a byddant yn falch o weld adeilad deniadol all ddarparu'n foddhaol ar gyfer y miloedd sy'n teithio'n flynyddol i'r copa. Deallwn fod Cymdeithas Cyhoeddusrwydd Llanberis hefyd yn gefnogol i'r fenter a'u bod wedi anfon llythyr o gefnogaeth i Awdurdod y Parc.

Ond a yw pawb yr un mor

gefnogol? Ychydig iawn o gyfle a gawsom ni, sy'n byw yn yr ardal, i leisio'n barn. Beth fydd manteision y cynllun i ni? Diddorol yw nodi fod un llais o leiaf wedi mynegi amheuan. Barn Dafydd Morris, sy'n ffermio'n lleol, yw mai esiampl arall sydd yma o ofynion y diwydiant twristaidd yn cael blaenoriaeth ar anghenion lleol. Mae o'r farn y byddai dros £8 miliwn yn gweddnewid ein cymunedau gwledig, ac mai dyna sut y dylid eu gwario. Diddorol oedd gweld llawer barn debyg yn cael ei lleisio ar y rhaglen 'Hawl i Holi' ar S4C yn ddiweddar.

A fydd cyfle i drigolion bro'r *Eco* gael dweud eu barn? Beth fydd y farn honno? Byddwn yn barod iawn i gyhoeddi eich sylwadau o blaid neu yn erbyn y cynllun.

MILIYNAU'R MILENIWM

ECO'R WYDDFA

Rhif 220
CHWEFROR 1996

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru

SWYDDOGION A GOHEBWYR

GOLYGYDDOL
IWAN ROBERTS
LLEIFIOR, LLANRUG
Ffôn: (01286) 675649
JOHN PRITCHARD
CILFYNYDD, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872390

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

DYDDIADUR Y MIS
Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi,
Deiniolen (870394)

FFOTOGRAFFWR
Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

DATBLYGU LLUNIAU
Bryn Jones, Elidir, Allt Dewi,
Bangor (01248) 353337 neu
871925

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion,
Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Ann Gibbins, Lodj Plas Tirion,
Pontrug (673696)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST
Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon
Bach, Llanrug (650200)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI
Dyma'r bobl i gysylltu â nhw
yn eich ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248 670726)

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys
Roberts-Williams, Godre'r Coed
(870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan,
Bryn Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DEINIOLEN: W. O. Williams,
6 Rhydfadog, Deiniolen (871259)

DINORWIG: Glyn Tomos, Pen y
Bwlch, Dinorwig (870576)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion
Roberts, Becws Eryri (870491)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn
Moelyn (675384)

NANT PERIS: Elwyn Searell Jones,
Dwyfor (870440)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (872407)

TAN-Y-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, CHWEFROR 29
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, CHWEFROR 19
Os gwelwch yn dda

DYDDIAU A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr, Ffôn: 650570

RHIFYN	DYDDIAD PLYGU	BLE?	CYSYLLTU Â	RHIF FFÔN
MAWRTH	CHWEFROR 29	LLANRUG	Mr Iolo Llywelyn	650200
EBRILL	MAWRTH 28	CWM-Y-GLO	Mrs Iris Rowlands	872275
MAI	EBRILL 25	DEINIOLEN	Mr W. O. Roberts	871259
MEHEFIN	MAI 30	BRYNREFAIL	Mrs L. P. Roberts-Williams	870580
GORFFENNAF	MEHEFIN 27	BETHEL	Mr Geraint Ellis	(01248) 670726
AWST	—	—	—	—
MEDI	MEDI 5	DINORWIG	—	—
HYDREF	MEDI 26	PENISARWAUN	Mrs Ann Evans	872407
TACHWEDD	HYDREF 31	LLANBERIS	Mr Gwilym Evans	872034
RHAGFYR	TACHWEDD 28	CAEATHRO	Mr Clive James	677438

Llythyrâu

Ymddiriedolaeth Taliesin Tŷ NEWYDD

Mae rhaglen newydd o gyrsiâu llenyddiaeth Tŷ Newydd wedi cael ei chyhoeddi. Eleni eto mae rhychwant eang o gyrsiâu ar gael i ddewis ohonynt — rhywbeth i bawb.

Bydd y cyrsiau'n cychwyn ym mis Ionawr ac yn mynd drwodd hyd at fis Tachwedd. Mae'r arlwy yn un ddiddorol o gwrs ar lenyddiaeth erotig — yng nghwmni Menna Elfyn a John Rowlands fydd yn ymchwilio i faes y synhwyrus a'r erotig — i gwrs barddoniaeth 'Y Gair a'r Gân' yng nghwmni Dic Jones a Brychan Llŷr.

Bydd cyrsiau ar ddechrau ysgrifennu, sgriptio i'r teledu, ysgrifennu, natur ysgrifennu ar gyfer radio, barddoniaeth a'r Internet, ysgrifennu ar gyfer plant, ysgrifennu ar gyfer ffilm, cyfieithu llenyddiaeth yn ogystal â chysiau pontio rhwng y Gymraeg a'r Saesneg — a'r cyfan yn nwylo tiwtoriaid egniol a phrofiadol.

Cyfle i ymarfer pob math o ysgrifennu mewn cwmni difyr yng nghanol prydferthwch Eifionydd.

Os am fwy o fanylion cysyllter ag Elinor Wyn Rowlands, Trefnydd y Cyrsiau Cymraeg, Tŷ Newydd, Llanystumdwy, Cricieth, Gwynedd LL52 0LW. Ffôn: (01766) 522811. Ffacs: (01766) 523095.

Y GADWYN

Cylchgrawn ar gyfer y deillion

Annwyl Olygydd,

Rydym yn ymwybodol fod llawer o bobl sydd ag anabledd-gweld heb fod yn gwybod am fodolaeth 'Y Gadwyn'. Buaswn yn ddiolchgar os gellwch roi y wybodaeth hon yn ei papur bro.

Cylchgrawn Cymraeg ar dâp ar gyfer rhai ag anabledd gweld yw 'Y Gadwyn'. Mae'r tâp yn awr o hyd ac yn cael ei recordio unwaith y mis gyda'r gwrandawyr yn eu derbyn ar y dydd Llun cyntaf o'r mis. Mae'n bwysig nodi fod y gwasanaeth yn hollol ddi-dâl i'r gwrandawyr gan ein bod yn defnyddio'r post di-dâl i anfon y

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

tapiau allan ac i'r gwrandawyr eu hanfon yn ôl.

Ar 1 Mawrth eleni bydd 'Y Gadwyn' yn dathlu ei phen-blwydd yn dair oed. Mae'n amlwg fod llawer yn cael pleser a mwynhad o wrando ar y tapiau gan fod nifer ein gwrandawyr wedi cynyddu o 36 i dros 200 yn ystod tair blynedd ei bodolaeth. Rydym hefyd yn falch o gyhoeddi fod 'Y Gadwyn' yn mynd i Ganada, Awstralia a Phatagonia yn fisol.

Rhai o'r eitemau sydd eisoes wedi ymddangos yn 'Y Gadwyn' yw cyfweiliadau gydag Archesgob Cymru; Arthur Rowlands am ei brofiadau a'i ddiddordebau; Dafydd Iwan; Capten Richard Evans, Moelfre; Trebor Edwards am ei fywyd cerddorol; Archdderwydd Cymru; Dai Jones, Llanilar; a llu o bobl ddiddorol eraill gan gynnwys hiwmor y diweddar Charles Williams a Gari Williams.

Ceir cyfraniad rheolaidd gan Rhys Jones (BBC) a Gruff Ellis, y Naturiaethwr gwydus o Ysbyty Ifan. Y nod bob amser yw cyflwyno rhywbeth fydd at ddant pawb.

Os oes unrhyw un o fewn dalgylch Eco'r Wyddfa â diddordeb mewn derbyn 'Y Gadwyn' a fuasent mor garedig a ffonio Mr Meirion Owen ar (01492) 546043 neu cysylltu â mi ar (01492) 549765, er mwyn i ni gael manylion pellach.

Diolch o galon am eich cymorth a'ch cydweithrediad.

Yn gywir iawn,

KEN OWEN

Swyddog Cyhoeddusrwydd

2 Carolina Crescent
Bae Penrhyn, Llandudno,
Gwynedd LL30 3HG

Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau GWOBRAU I'R EISTEDDFOD

Annwyl Ddarllenwyr,

Bu'r is-bwyllgorau sy'n ymwneud â dewis testunau i gystadlaethau Eisteddfod Genedlaethol Meirion a'r Cyffiniau pan fydd yn ymweld â'r Bala yn 1997, wrthi'n brysur dros y tri neu bedwar mis diwethaf yn gwneud eu penderfyniadau. Erbyn hyn mae'r testunau yn eu lle ac yn barod i gael eu cyflwyno. Mae un dasg arall i'w chyflawni, sef dod o hyd i wobrau.

Eisoes addawodd sawl unigolyn neu gymdeithas roi gwobr a byddwn yn cysylltu â hwy yn fuan. Fodd bynnag, da o beth fyddai rhoi cynnig i eraill sydd yn byw tu allan i ddalgylch yr Eisteddfod gael cyfrannu. Wedi'r cyfan mae rhai o bobl dda Meirion wedi ymgartrefu mewn rhannau eraill o'r wlad ond eto'n falch o nodi eu cysylltiad â'r hen sir. Efallai fod eraill yn cofio am Eisteddfod 1967 yn Y Bala ac am wneud hynny mewn modd ymarferol.

Os hoffech gyfrannu trwy gyflwyno gwobr ariannol i'r Eisteddfod yna byddwn yn falch o glywed yn ystod yr wythnosau nesaf. Byddai'r Pwyllgor Gwaith yn ddiolchgar iawn. Dylid anfon gair ataf yn Swyddfa'r Eisteddfod yn Tŷ Thomas Charles, 70 Stryd Fawr, Y Bala, Gwynedd LL23 7AD, neu os ydych am sgwrs yna croeso i chi gysylltu â mi ar (01678) 521 477.

Diolch am gynorthwyo'r Eisteddfod.

Yn gywir,

HYWEL WYN EDWARDS
Trefnydd

CANGEN PLAID CYMRU BETHEL
Noson yng nghwmni

DAFYDD IWAN A'I FAND

YNG NGHLWB Y FELIN, Y FELINHELI
NOS SADWRN, 9 MAWRTH 1996

Tocynnau: £4 ar gael o Slop y Pentan, Caernarfon
neu ffonluch (01248) 670641 / 671327

CROESO CYNNES I BAWB

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota



Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

Yr Hen Gymdeithas gynt a fu

Annwyl ddarllenwyr,

Buaswn yn hynod ddiolchgar pe byddai unrhyw un o ddarllenwyr yr Eco sydd a hanesion am 'yr hen gymdeithas a fu gynt' yng Ngwaun Cwm Brwynog, gan gynnwys cymdeithas Capel Hebron, yn cysylltu â mi yn y cyfeiriad isod. Bûm yn ddigon ffodus i gasglu toreh go dda o hanesion y gwahanol gymeriadau a fu'n trigo yn y Cwm o ddechrau'r ganrif trwy barodrwydd a chymwynasgarwch rhai o'n hynafiaid, ond mae rhai bylchau yn aros o hyd. Os oes gan rhywun luniau o rai o'r trigolion a'r mân dyddynnod byddwn yn dra diolchgar o'r cyfle i'w gweld, os yn bosib.

Yn ddiolchgar,

ROL WILLIAMS

5 Pant y Waun, Waunfawr.

Pwyllgor Gefeillio Landerne (Llydaw)

LLETY I'R LLYDAWYR

Mae Pwyllgor Gefeillio Landerne yn awyddus i glywed gan unigolion a theuluoedd fyddai'n awyddus i gynnig llety yn eu cartrefi i nifer o gyfeillion o Landerne, Llydaw, adeg eu hymwelid â Chaernarfon rhwng 25 a 29 Gorffennaf 1996.

Dyma'r ymweliad cyntaf ar y fath raddfa ers y gweithgareddau gefeillio ddwy flynedd yn ôl ac mae'n dilyn ymweliad gan gynrychiolwyr o Gaernarfon i Lydaw yn gynharach eleni. Bydd yn cydfynd â Gŵyl y Dref yn wythnos olaf Gorffennaf nesaf a bydd y gynrychiolaeth yn cynnwys dawnswyr a cherddorion yn ogystal â swyddogion a chyfeillion.

'Bydd tua cant o gynrychiolwyr o Landerne yn dod ac rydym am sicrhau croeso cynnes iddynt,' meddai llefarydd ar ran y pwyllgor gefeillio.

'Bydd rhaid dod o hyd i lety i hanner cant ohonynt ar aelwydydd yn y dref a'r cylch ac mae'r pwyllgor felly yn apelio'n daer ar unrhyw un sy'n gallu ein cynorthwyo i gysylltu â ni yn fuan fel y gallwn fwrw ymlaen â'r trefniadau,' meddai.

Pe byddech â diddordeb cysylltwch â'r Pwyllgor Gefeillio drwy ffonio Elwyn Williams ar (01286) 677227 neu alw i'w weld yn Swyddfa Partneriaeth Caernarfon, Stryd y Plas.

Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen

Mae Cyngor Cymdeithas Llanddeiniolen wedi bod yn cwyno i'r Awdurdodau am gyflwr Stryd Fawr, Deiniolen, ers blyneddodedd bellach ond does dim yn cael ei wneud ynglŷn â'r cwynion.

Penderfynwyd yn y cyfarfod diwethaf i ofyn i Brif Swyddog Technegol Cyngor Arfon ddod i gyfarfod â'r aelodau lleol yn Neiniolen i drafod y mater ac i geisio gwella'r sefyllfa yn gyffredinol, gan fod yna nifer o adeiladau gwag yn achosi cryn bryder i'r Cyngor.

Ddiwedd y flwyddyn bu farw William Iolen Hughes, Rhiwlas. Bu Mr Hughes (a fu'n brifathro ysgol Rhiwlas am gyfnod maith) yn cynrychioli ardal Rhiwlas ar y Cyngor Cymdeithas am sawl blwyddyn. Cafwyd gair o goffad iddo gan y cadeirydd, Mr Elwyn Jones, a safodd yr aelodau o barch i'w goffadwriaeth.

SELWYN GRIFFITH

ANTUR PADARN

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Antur, nos Iau, y 18fed o Ionawr yng Nghanolfan Gymunedol Penisarwaun. Trafodwyd y prosiectau y gobeithir sicrhau cefnogaeth ariannol iddynt gan CYMAD, sef y cwmni sy'n hybu rhaglenni yr Undeb Ewropeaidd yng Ngwynedd. Mae'r prosiectau dan sylw yn ymwneud ag arolwg o adeiladau gwag yn Neiniolen; arolwg busnesau bychain ar y cyd â Chyngor Cymuned Llanrug; a chynllun ar gyfer ieuencid yr ardal. Bwriedir paratoi y ceisiadau hyn yn ystod y misoedd nesaf.

Mae'r aelodau yn dymuno gwellhad buan i'r Cynghorydd Emyr Tomos, Llanrug, sy'n is-gadeirydd yr Antur. Mae'n dda deall ei fod gartref erbyn hyn wedi arhosiad byr yn Ysbyty Gwynedd. Edrychwn ymlaen i'w wel yn ôl yn y cyfarfodydd yn fuan iawn.

Cynhelir cyfarfod nesaf yr Antur nos Iau, 22 Chwefror, am 7 yn y Ganolfan Gymunedol, Penisarwaun. Croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

**Cefnogwch
ein
Hysbysebwyrr**

Athrawon Ysgol Brynrefail yn y dauddegau



Cafwyd benthyg y llun uchod gan Mrs G. M. Jones, Y dalar Deg, Llanrug. Mae Mrs Jones yn enwi'r athrawon fel a ganlyn: *Rhes Gefn o'r chwith i'r dde*: Mrs Williams, Ceginio; D. R. Griffith a fu'n brifathro ym Motwnnog; ?; Gwilym Jones; Miss Williams, Ffrangeg; Robert Morris (yr athro Saesneg gorau yng Ngogledd Cymru yn ôl Mrs Jones); Miss M. Evans, Cymraeg. *Rhes flaen*: Miss Gwyneth Harry o Langennech; Mr Foster, y prifathro a Miss Parry o Gwm-y-Glo, y dirpwy. Dywed Mrs Jones eu bod i gyd wedi ein gadael bellach ond oes gan rai o'n darllenwyr atgofion ohonynt?

Y Gymdeithas Strôc

Hoffwn eich hysbysu fod y Gymdeithas Strôc wedi agor canolfan wybodaeth yn Bodfan, Ysbyty Eryri, Caernarfon, Ffôn: (01286) 673864 gyda ffacs a pheiriant ateb.

Pwrpas y Ganolfan yw rhoi gwybodaeth a fydd o les i ddioddefwyr strôc, eu teuluoedd, gofalwyr, a'r rhai proffesiynol sydd yn dod i gysylltiad â dioddefwyr strôc. Bydd gwybodaeth ar gael drwy

ffurf ysgrifenedig (pamffled), tros y ffôn neu trwy alw am sgwrs.

Mae'r Ganolfan yn gyfrifol am wasanaethu gorllewin-gogledd Cymru (ardal Gwynedd) ac wrth fod yr ardal yn un mor fawr gobeithir cynnal cyfarfodydd mewn gwahanol ganolfannau gan ddod a gwasanaeth y Ganolfan yn agosach i'r rhai sydd ei hangen.

Os oes rhywun yn dymuno cael mwy o wybodaeth yna cysylltwch â ni ar y rhif uchod.

W.J.GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG

Pant Tirion, Llanrug

Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestredig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

Prifysgol Cymru, Bangor

CYNGERDD DEWI SANT

Neuadd Prichard-Jones
Nos Sadwrn, 24 Chwefror 1996
am 7.30pm

Rhian Owen

(Cwmni Opera Cenedlaethol Cymru)

Dylan Cernyw

Aelwyd Bro Gwerfil

Tocynnau: £6.00 ar gael o

Uned Cyhoeddusrwydd

Prifysgol Cymru

Bangor (01248) 382005

NODDWR: BANC Y MIDLAND

Wavell Roberts

CIGYDD

London House
LLANRUG

Ffôn: C'fon 673574

PEN CIGYDD Y FRO

Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta

Archebion ar gyfer y rhewgist
MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

Royal Victoria Hotel



LLANBERIS



Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer Priodasau,
Partïon, Dathliadau ac Achlysuron Arbennig

Cyfleusterau Cynhadleddau a Phwyllgorau

Bwydlen Bar a Chinio Dydd Sul

Cwrw Felin Foel

Ffôn: Llanberis 870253

ERIC JONES

PENISARWAUN

PEINTIWR

AC ADDURNWR



Joban Dda
am Bris
Rhesymol

Ffôn: 872421

CHWILOTA

CYMRY

ODDI CARTREF



Yn ôl Bob Owen, Croesor, roedd cyfraniad Sir Gaernarfon i nifer Cymry America yn uwch nac unrhyw sir arall yng Nghymru ar wahân i Forgannwg. Aeth yr ymfudo rhwng 1841 ac 1851 yn genllif, ac nid o gefn gwlad yn unig yr ymfudent. Aeth yn rhuthr o'r chwareli llechi, a'r hysbysebion yn y papurau newyddion yn frith, gan sôn am yr Utopia newydd dros yr Iwerydd. Ym mis Gorffennaf 1845 gadawodd 62 o bobl plwyfi Llanrug a Llanberis ar y llong 'Republic', o Lerpwl i Efrog Newydd, a gariai bron i gant a hanner o Gymry drosodd i'r America. Am daleithiau Wisconsin a Vermont 'roedd y mwyafrif o chwarelwyr Arfon yn anelu, ond mentrodd eraill i rannau mwy anghysbell, gan groesi'r cyfandir i'r arfordiroedd gorllewinol. Anfonwyd degau o lythyrau yn ôl i Gymru at deuluoedd a chyfeillion, ac y mae nifer ohonynt ar gael o hyd. Maent yn rhoi darlun o fywyd ar ddwy ochr yr Iwerydd yn y cyfnod hwnnw.

Ond nid America oedd yr unig abwyd. Mentrai rhai ymhellach, ac ymsefydlu yn Awstralia. Yn eu plith roedd criw bychan o ardal Llanberis a Nant Peris. Y mae llythyrau rhai ohonynt yn cofnodi eu hanesion. Yn 1855 mae Owen Rowlands yn anfon at ei rieni ym Mryn Fforch, Llanberis (ble'n hollol mae Bryn Fforch?) ac yn adrodd iddo agor chwarel gerrig rhyw bedair milltir o Melbourne mewn partneriaeth â gŵr o Ffestiniog ac un arall o Ddwygyfylchi. Roeddent yn cyflogi deg o ddynion i dorri cerrig i wneud ballast i longau. Câl'r dynion rhwng deg swllt a phedwar swllt ar ddeg o gyflog y dydd am eu gwaith, a'r partneriaid eu hunain yn cael punt. Roedd y tri wedi buddsoddi degpunt yr un yn y busnes er mwyn prynu ceibiau, cynion ac arfau gwaith. Costiai pylor ddau swllt y pwys iddynt. Byddent yn prynu stoc helaeth o fwyd i'r holl weithwyr yn y chwarel, ac am eu bod yn prynu mewn 'bulk' roedd i'w gael am hanner pris. Telid am bopeth fesul pwys — menyn yn ddeunaw ceiniog, te yn bymtheg ceiniog, a siwgrwr a reis yn ddwy geiniog.

Mae'n amlwg fod perthnasau neu gyfeillion iddo o ardal Llanberis hefyd yn Awstralia, oherwydd mae'n nodi bod Daniel 'yn yr aur', John 'yn iach', ac Owen 'cystal ti-total â neb yn Llanberis'. Mae hefyd yn anfon ei gofion at bawb o'i gyfeillion yn Llanberis ac yn enwedig at ei ewythr Thomas Roberts.

Yn yr un flwyddyn mae John Abraham Williams yn sgwennu i'w rieni yn Gwastadnant ac yn dweud iddo 'deithio llawer yn Awstralia, ond yn dlotach oherwydd hynny. Peth gwell all dyn ei wneud yw sticio yn yr unfan'. Doedd ei gyflog ond deuswllt y dydd ac yr oedd yn meddwl am ddod yn ôl gartref neu fentro

Galiffornia. Roedd Daniel (yr un Daniel ac y mae Owen Rowlands yn sôn amdano) yn Bendigo, sef y gweithfeydd aur, ac yn ôl John Abraham, 'wedi gweld William Owen, Y Fron'. Pwy oedd o tybed? Mae John Abraham yn poeni am ei rieni, gan na fuont mewn iechyd rhy dda, ac y mae'n annog ei frawd i edrych ar ôl y cartref: 'Fe leciwn i Thomas setlo adref, oblegid ni wêl werth cartref nes ei adael'. Mae'n anfon ei gyfarchion hefyd at frawd arall, Robert, ac at Margaret a'r teulu i gyd.

O fewn tua pedwar mis, ar ddechrau 1856, daw llythyr oddi wrth Daniel Evans, Gwastadnant, sef y Daniel y sonnir amdano gan y ddau lythyrwr cynt. Mae'n ysgrifennu o Bendigo. Yma roedd 'Ruthr Aur' Awstralia yn y cyfnod hwn. Mae'n adrodd ei fod yn ennill cyflog o £23 yr wythnos, a bod John Abraham Williams wedi ymuno ag ef ers tua tair wythnos. Yn ôl Daniel, bu John Abraham yn hynod lwcus yn y gweithfeydd aur. Yn ystod ei ail wythnos

PÊLDROEDWYR LLANRUG



Derbynias gopi o lun pwyllgor a thîm pêl-droed Llanrug gan Gwynfor Jones o Gaernarfon (gynt o Lanrug). Mae'n gallu enwi mwyafrif y rhai sydd yn y llun, a gallaf innau hefyd adnabod nifer go dda. Does dim dyddiad i'r llun ond mae'n perthyn i'r cyfnod yn union wedi'r Ail Ryfel Byd, neu ddechrau'r pumdegau. Oes unrhyw un o'n darllenwyr yn gallu enwi pawb yn y llun? Yn bwysicach na hynny oes rhywun yn gallu egluro pam nad oes gan Lanrug ond deg chwaraewr? Peth od iawn yw i dîm pêl-droed gael tynnu ei lun gyda un chwaraewr ar goll! Tybed oedd rheswm arbennig pam fod Llanrug yn brin? A phwy oedd yr 'un dyn bach ar goll'?

casglodd dros chwe owns o aur, ac yn ystod ei drydedd wythnos, darganfu lwmp o aur oedd yn pwyso dros ddwy owns, ac yn werth wyth bunt a phum swllt. Mae'n amlwg fod John Abraham wedi gwrthsefyll y demtasiwn o fentro i Galiffornia, a'i gyflog wedi gwella'n arw ers iddo ddechrau yn y gwaith aur.

Beth tybed ddigwyddodd i'r tri hyn o blwyf Llanberis: Owen Rowlands, y perchennog chwarel; Daniel Evans, y cloddiwr aur; a John Abraham, na allai setlo'n hir iawn yn unman. 'Sgwn i a ddaeth unrhyw un ohonynt yn ôl i'r Nant? Ac os na ddaethant, am ba hyd y bu llythyru rhyngddynt hwy a'u teuluoedd.

CRAIG YR UNDEB

Ym mis Mai 1874 y dechreuwyd casglu cyfraniadau cyntaf Undeb Chwarelwyr Gogledd Cymru; undeb a gofrestrwyd ar ddechrau'r flwyddyn honno. Dioddefodd cant ac ugain o chwarelwyr Glynrhonwy pan gawsant eu hatal o'u gwaith am dair wythnos. Cyfarfu perchnogion y chwareli yng

Nghaernarfon ar Fai 14, 1874, i drafod sefyllfa'r Undeb, a rhoddwyd rhybudd ganddynt y byddent yn gwrthod gwaith i unrhyw ddyn a fyddai'n aelod o'r Undeb. Rhoddwyd y dewis hwn — gwaith neu'r Undeb — i chwarelwyr Dinorwig ar ddiwrnod 'gosod' ym Mehefin. Dewisodd dros 2,000 o'r gweithwyr yr Undeb. Buont allan o'r gwaith am bum wythnos. Ceir adroddiadau am y gwrthdaro Undebol cynnar hwn yn rhifynnau'r *Herald Cymraeg*, a chofnodir fod y chwarelwyr yn cynnal cyfarfodydd ar Graig yr Undeb. Y cofnod cyntaf i mi ddod ar ei draws yn enwi 'Craig yr Undeb' yw hwnnw am Orffennaf 17, 1874. Pa bryd, tybed, y dechreuwyd galw'r safle yn 'Craig yr Undeb'. A phwy a fathodd yr enw? Yn fwy diddorol efallai fyddai cael gwybod beth oedd enw'r graig cyn hynny.

Beth bynnag am hynny, yn ystod y blynyddoedd canlynol, ac yn enwedig yn ystod clôad allan 1885-86, bu Craig yr Undeb yn gyrchfan bwysig i chwarelwyr yr ardal — ac nid i drafod materion undebol yn unig. Ym mis Hydref 1876 cyfarfu nifer fawr o chwarelwyr ger Craig yr Undeb i drafod ac i wrthwynebu y creulonderau yn Bwlgaria.

Am ba hyd y bu chwarelwyr y fro yn cynnal cyfarfodydd yma?

Dros y gwyliau derbynias llythyr oddi wrth Glyn Tomos, ar ran Antur Padarn. Bu'n sgwrsio â'r Dr Dafydd Roberts, Llanberis ac hefo Mr Gareth Haulfryn Williams o Archifdy Gwynedd ynglŷn â Chraig yr Undeb, a chael ar ddeall gan y ddau ohonynt nad ydynt wedi dod ar draws unrhyw lun o chwarelwyr yn cyfarfod ar Graig yr Undeb. Felly, dyma gais y mis hwn: oes gan unrhyw un o ddarllenwyr yr *Eco* wybodaeth am fodolaeth llun o'r fath, neu



Argraffu a Ffotogopïo Lliw
Lluniau ar gyfer pasport
Crysau-T
Gwasanaeth Dylunio Pen
Llythyrau, Cardiau Busnes
ac ati, Ffotograffiaeth ...
a llawer mwy

48 Stryd Fawr
LLANBERIS
Ffôn/Ffacs: 870200

Am Wasanaeth
Fframio Lluniau
Tystysgrifau
Tapestri

am brisiau rhesymol

ELWYN
PRITCHARD

Parc Padarn, Llanberis
Ar agor Llun – Sadwrn
10.00 – 4.30

Ffôn: Llanberis
870922

gorau oll os oes llun yn eich meddiant. Byddai'r *Eco* yn falch o'i dderbyn er mwyn cael bod y cyntaf i gyhoeddi llun o'r fath. Ac rwy'n sicr y byddai Amgueddfa'r Gogledd ac Archifdy Gwynedd yn falch o dderbyn copi hefyd. Felly, beth amdani?

TEULU AR GOLL

Mae gŵr o Readin, Lloegr, mewn cysylltiad â mi ynglŷn â changen o'i deulu sy'n hannu o Gwm-y-glo. Enw ei hen daid oedd Owen John Jones, ac yn ôl yr ychydig wybodaeth sydd ganddo, roedd yn arolygwr yn y chwarelau llechi (Dinorwig o bosib) ac yn 'Weinidog Methodist'. Roedd ganddo ferch o'r enw Elizabeth, a briododd yn Lerpwl yn 1899 â gŵr o'r enw John James Roberts. Mae'n ymddangos fod gan Owen John Jones berthnasau yng ngofal Cartref Bontnewydd tua 1920 (nai a nith o bosib) — Evan a Jennie.

Os oes rhywun â gwybodaeth am y teulu, cysylltwch â mi os gwelwch yn dda.

* * * *

Dros y gwyliu derbyniais nifer o alwadau ynglŷn â rhai o'r hanesion a ymddangosodd yn y golofn ar ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf. Ceisiaf gloriannu'r sylwadau erbyn y rhifyn nesaf. Derbyniais hefyd gerdd arall, drwy law Glyn Owen, Glangors. Ei thestun yw 'Yr Wylnos' a chan ei bod yn sôn am wylnos Nos Calan fe'i cadwaf tan rhifyn olaf 1996! Yn y cyfamser, dyna flwyddyn i chwi geisio darganfod

CLWB ERYRI

Yn y cyfarfod yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, nos Wener, 5 Ionawr, chwith oedd gorfod cyfeirio at golli o'r gwmniaeth un o'i haelodau ffyddlonaf ac un o'i sylfaenwyr, sef William Iolen Hughes, Rhiwlas. Wrth dalu teyrnged ddilys ac addas iddo cyfeiriodd Brython Jones at y cyfuniad o ddiymhongarwch a diwydrwydd blaengar a nodweddaid ei natur a'r bwch a agorwyd o'i golli, ar yr aelwyd ac yn ei fro. Wedi'r nodyn prudd cafwyd cywair mwy calonogol wrth groesawu aelod newydd, sef Edgar Wyn Parry, Caernarfon (gynt o'r Ceunant), a dymunodd y llywydd, Wyre Thomas, gysylltiad hir a hapus iddo yn ei ymrwymiad i noddi a hybu gweithgareddau'r Clwb i'r dyfodol. Cyflwynwyd siaradwr y noson, John Roberts Williams, gan y Dr Eurwyn Lloyd Evans a chafwyd dadansoddiad a sylwadau ysgolheigaidd a difyr ar gyfraniad y mesur englyn i lenyddiaeth Gymraeg ar hyd y canrifoedd. Wedi trafodaeth amrywiol ddwys a ffraeth o'r llawr, diolchwyd i'r siaradwr ac i bawb a gyfrannodd at lwyddiant y noson gan y Dr Dan Hughes. Wrth gloi, cyhoeddodd y llywydd bod cyfarfod nes y Clwb nos Wener, 2 Chwefror, gyda Meurig Evans yn y gadair a'r Dr Dan Hughes yn traddodi.

IOLO HUGHES-ROBERTS

pwyl yw'r awdur. Mae'n cychwyn gyda'r llinellau:

Mae'r flwyddyn hon eto ar drothwy ei bedd

Ac arall ar gamu i'w chrud;

* * * *

Yn ddiweddar hefyd deuthum ar draws enw gŵr o Ddeiniolen (Ebenezer bryd hynny) a'i galwai ei hun yn Dewi Wylt. Enillodd y wobr gyntaf o deirpant am gyfansoddi cerddoriaeth addas i'r bymthegfed salm yn Eisteddfod Llangollen ym mis Hydref 1858. Ei enw iawn oedd David Jones. Oes rhywun yn gwybod mwy am y cerddor hwn o fro'r *Eco*?

Anfonwch eich sylwadau, hanesion, ymholiadau neu hen luniau i Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. Ffôn (01286) 673515.

DRAENOG



Mewn Hogmanay yn Sgotland bell Criw Silfyr Star fu'n ddoeth, Gan swatio'n gynnes yn eu gw'lau Â photel o ddŵr poeth.

Gwraig o Bontrug ga'dd syniad gwell Na photel boeth o ddŵr: Rhoes gardas tartan am ei chlun I boethi gwaed ei gŵr!

Dosbarth Ysgol Sul Capel Mawr, Llanrug



Benthyciwyd y llun gan Mrs Ellen Williams, Llanrug, oedd yn aelod o'r dosbarth Ysgol Sul. Yn anffodus, nid oes dyddiad iddo, ond mae enwau'r aelodau i gyd ar gael, sef (o'r chwith i'r dde): Mrs Nancy Griffith, Mrs Myfi Roberts, Mrs Ellen Williams, Mrs Nancy Jones a Mrs Dora Evans, gyda'u hathro, Mr R. Parry, a'r gweinidog, y Parchg W. O. Roberts. Mae'n ymddangos fod medal gan Mr R. Parry — a'i Medal Gee tybed?

GWASANAETH TACSI HURIO BWS MINI CABS LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

675951

Prisiau Cystadleuol — Gwaith Contract — Pell ac Agos

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL
A RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 675175 a 677858



Llanberis 870203

Ar agor trwy'r flwyddyn ar gyfer priodasau, dathliadau bedydd, pen-blwydd a phob achlysur arbennig arall. Gallwn drefnu adloniant - disgo a.y.y.b. Bwydlen Bar a Restaurant Cinio Dydd Sul

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
MENAI SEWING
MACHINE CENTRE
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn:

(0248) 714043
neu C'fon 674520
Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

UDGANU gan Y Gwalch

Pan oeddwn i'n gweithio hefo'r Comisiwn Coedwigaeth fy mhartner oedd tyddynnwr bychan canol oed o'r enw Shakespeare Jones. Roeddwn ni'n gweithio ar y lli-gron mewn llannerch yn gwneud pyst ffensio, ar delerau o 'hynny bach wna i, hynny bach gaf i'. Mae hynny yn swnio yn gyfoethog iawn ar bapur ond, wedi iddyn nhw weld eich eitha chi, roedd y pris yn disgyn fel rwb yn y chwarael, ond roeddwn nhw yn eich cadw chi arni hi gan roi'r argraff eu bod nhw yn gwneud cymwynas â chi ar yr un pryd.

Roeddwn i wedi cyrraedd fel rheol o flaen Shakespeare yn y bora. Roedd ganddo fo deulu mawr ac yr oedd yn rhaid iddo fo ddwâd a'r can llefrith i lawr i'r lôn bost y peth cynta hefo'r hen sragryn hen dractor hwnnw.

Yn y coed roeddwn nhw yn rhoi deng munud i chi ganol y bora i gael 'bagin' ond pan oeddach chi mewn lle cyn go snêc roeddach chi yn gallu ei ymesyn o i hanner awr, neu doeddech chi ddim ffit i weithio i'r llywodraeth.

Serch hynny, doeddwn ni ddim yn ffefrynnu gan Tomos y Coedwigwr. Roeddwn ni wedi cael ein dal yn rhy aml yn mynd adra'n gynnar ac yr oedd o wedi cael ei roi ar y carped unwaith hefo'r Conservator o achos Shakespeare, a oedd wedi cael ei anfon allan rhyw ddiwrnod i roi labels metal ar y gwahanol armwyiol o goed, cyn archwiliad swyddogol. Roedd o'n digwydd bod gerllaw'r pentra amser cinio, ac mi aeth a'i frechdana i'r Goat. Pan ail-afaelodd o yn ei rownd rhyw dro yng nghanol y pnawn mi gymysgodd ei labels ac mi fuo yna dipyn o sgwff-wff. Bu'n rhaid i Shakespeare fynd o flaen y D.O. ac mi fuo bron iddo fo a cholli ei dyddyn.

Efalla eich bod chi wedi amau bellach; roedd Shakespeare Jones yn dipyn o rigymwr — cocos felly — dipyn bach y tu allan i'r mesurau caeth, am rhyw ddigwyddiadau trwstan lleol ac achlysuron. 'Chydig yr adeg honno oeddwn i'n ddychmygu y buaswn i'n destun i un o'i orchestweithiau.

Un bora gwresog yng Nghorffennaf, daeth y Coedwigwr atom yn annisgwyl gan ddweud heb ragymadrodd, 'Mi rydw i am y'ch tynnu chi oddi ar y lli.' Edrychodd

Shakespeare Jones arnaf yn gynlled. Roeddwn ni'n dau wedi cael syndod.

'Mae pob dim wedi mynd yn grimp hefo'r tywydd poeth 'ma,' meddai Tomos wedyn. 'Mi fydd yn rhaid i ni gymryd pob gofal. Mae arna i isio i chi fynd i dorri'r tyfiant yn y reids tân.'

Wnaif i ddim ceisio arall-eirio Shakespeare wrth i ni lafurio drwy'r tes ar draws i'r ochr bellaf i'r coed ond, i'r reids yr aethom ni; ac yno y darfu i ni aros.

Yn y cyfamser, hidlodd newyddion drwy'r coed o'r fel y darfu i blanhigfa ifanc yn uwch i fyny gipio ar dân, a dim ond drwy lwc yr ymosodwyd ar y fflamau yn ddigon buan hefo curwyr a rhawiau, i arbed galanas fwy. Serch hynny roedd y digwyddiad wedi codi cymaint o bryder ar y Coedwigwr nes iddo drefnu patrols tân.

Hefo patrols felly yr oeddech chi yn cael eich hanfon allan eich hun i gerdded rhyw ddarn penodedig o goedwig a chadw golwg am fwg neu rhyw arwydd o dân. Roeddech chi yn cael biwgyl, a band am eich braich, dest i brofi nad oeddach chi ddim wedi neidio tros y Clawdd Mawr, ac yr oedd yr offeryn i fod yn sownd wrthoch chi wrth gortyn bob amser, fel tasa eich coesa chi yn cymyd tân mi fuasech yn medru dal i'w chwythu nes y byddai blaenau eich bysedd chi'n cipio. Yn anffortunos doedd yna ddim modd dweud y basa'r peth yn canu o gwbl heb ei roi wrth eich ceg, ac erbyn hynny — tasa fo ddim — roedd hi'n adag annifyr i ganfod y ffaith.

Roeddwn i i lawr ar rota dydd Sul. Roedd hi'n ddiwrnod andros o glôs a thrymaidd; y math o dywydd sydd bob amser yn terfynu mewn storm o fellt. Yr oedd y landledi wedi rhoi potelaid o lemonêd cartra i mi fynd hefo mi; ac roeddwn i wedi ei yfed o i gyd cyn brin gychwyn ar fy nhaith.

Ar ôl i mi gael boliad o grwydro'r reids, dyma fi'n dringo i fyny'r codiad at y llyn, ac yn y fan honno mi glywais rhyw lais falsetto yn codi o'r rhedyn: 'Sound an alarm you silver trumpets...' A phwy oedd yno ond Shakespeare Jones wedi taflu ei hun ar lawr hefo'r papur a thipyn o gwrw, a phump o'r plant.

'Ista i lawr,' meddai. 'Fydd tanna' ddim yn cychwyn ar ddydd Sul.

Hwda, cym swig o hwn,' ac estynnodd botel o'r 'old and mild'.

Roeddwn yn falch o dderbyn y ddau wahoddiad, a dyma Shakespeare yn dechra dwued pa mor agos y bu iddo gopio pŵl Awstralia ac un peth a'r llall, ond yr oedd hi'n rhy drymaidd hyd yn oed i gynnal sgwrs hir. Roedd hyd yn oed y plant, a fyddent bob amser fel wiwerod, yn swrth.

Oddi ar wastad fy nghefn edrychais ar yr wybren farwaidd las drwy'r rhedyn, ac yr oeddwn yn clywed murmur pell yr afon islaw. Roedd un neu ddwy o wenoliaid mawr yn sglientio yn yr entrychion, ac roeddwn yn eiddigeddus o'u medr. Roedd yna gacwn mawr yn suo rhywle gerllaw, a wnes i ddim ceisio gwrthsefyll y teimlad cysglyd braf hwnnw a'm goddiweddodd...

Yna, credais am funud fod yr holl fyd wedi hollti yn agored, a bod y sŵn a oedd wedi ei gynhyrchu ers oesoedd wedi cael ei chwydu allan yn un ebwch ofnadwy yn fy ngwyneb. Codais ar fy eistedd, a dyna lle roedd Shakespeare Jones yn yr un ystum a'i geg yn llydan agored, ac yr oedd un o'r plant yn dal ei afael yn y biwgyl fel tasa hwnnw yn ddymi, ac yr oedd o'n amlwg yn gwybod ei haeddiant. 'Doeddwn i ddim ond yn trio chwara do-re-mi,' meddai.

Roedd Shakespeare ar ei draed mewn munud. Gafaelodd yn yr hogyn a rhoi bonclust iddo nes yr oedd yn synnu. 'Yli be wyt ti wedi'i neud, y llwtrach bach,' meddai. 'Mi fyddi wedi tynnu'r brigâd dân ar ein penna ni, a hynny i ddiawl o ddim.' Ond ar y cyfan roedd o yn un digon hamddenol. 'Mi rydan ni mewn smonach rŵan,' ychwanegodd. 'Mi gawn ein cicio allan y tro yma yn ôlreit.'

'Mi ga' i, ydach chi'n feddwl,' medda fi. 'Mi fydd yn well i chi ei g'luo hi. Fydd neb yn gwybod. Mi ddeuda i fy mod i wedi colli fy mhen a gneud camgymeriad.'

'Dim peryg,' meddai yntau. 'Os ydyn nhw am ddwâd i fyny yma hefo'u peipia a'u gêr wnawn ni mo'u siomi nhw. Oes gen ti fatsys?'

'Be' ydach chi am neud?'
'Paid â dechra dada. Tyrd yn dy flaen.'

Cychwynnodd ar ffilduth i gyfeiriad y llyn tra roeddwn innau yn edrych ar ei ôl fel heplaw, ac yn synnu fod yna gymaint o fynd yn dal ynddo. Taniodd fatsen a'i thaflu i'r gwellt laes, a chyn gynted y cyffyrddodd honno, cipiodd y tân i bob cyfeiriad. 'Rŵan ta,' gwaeddodd, 'am ei ddiwedd o!'

Wnes i ddim sylwi yn yr argyfwng na fuasai'r tân yn mynd ddim pellach na'r llyn p'run bynnag, ond yr oedd hi'n gyfyng gyngor i'w atal rhag crwydro i gyfeiriadau eraill, ac roeddwn i'n meddwl am funud fod yr hen Shakes wedi ofar ei gwneud hi y tro hwnnw. Ond mi ddaru ni i gyd ddal ati fel lladd nadroedd hefo ffyn a chotia, ac yr oedd Shakespeare yn annog ei griw ymlaen i'r frwydr drwy weiddi arnyn nhw a'u pwyo.

Mi ddaru ni ei drechu o yn y diwadd, drwy gael a chael, ac yna diflannodd Shakespeare i'r coed hefo'i gnwed r'un fath â rhai o'r Dynion Duon Bach yn mynd i chwilio am y gweddill. Golchais innau fy ngwyneb â'm dwylo yn y llyn a mynd yn fy ôl i gerdded y reids, gan ddisgwyl gweld y frigâd dân yn dod i fyny unrhyw funud. Ond welais i ddim adyn drwy'r pnawn, a phan gyrhaeddais i'r sied gyda'r nos i gloccio i ffwrdd a rhoi mi miwgyl i mewn, pwy oedd yn digwydd bod yno ond Tomos ei hun.

'Welaist ti rhywun o gwmpas y pnawn 'ma?' gofynnodd.

'Neb,' medda fi. 'Ddim hyd yn oed Shakespeare Jones. Gobeithio nad ydi o'n sâl neu rhywbeth.'

'Erioed, hwnna,' meddai, 'debycach ei fod o wedi ffendio rhywla i fynd i gysgu allan o'r haul. Mi rydw i'n gobeithio nad ydi o ddim yn smocio ac yn taflu matsys o gwmpas, dyna'r cwbl. Mae 'na waith dysgu ar rai.'

'Gwir,' medda finnu. 'Fedrwrch chi ddim bod yn rhy ofalus ar dywydd fel hyn.'

Cefnogwch ein Hysbysebwy



**ORIEL
PLAS
GWYN**

Pontrug, Caernarfon

Gwasanaeth Fframio Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhesymol

Arddangosfa o luniau gwreiddiol gan Artistiaid Lleol

Ar ffordd A4086

Caernarfon — Llanberis

Ffôn/facs: 0286 672619

Richard S. Humphreys

Ffenestri

CELTIC


Windows

2 TAN Y BRYN, BETHEL

BUSNES TEULUOL • CREFFTWYR LLEOL
FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS

NEWYDD! DRYSAU PALADIN —
HARDDWCH COED HEB Y STRACH!

Ffoniwch am amcanbris — rhad ac am ddim



(01286) 671181
(0831) 326160



GORSAF BETROL



BERAN

DEINIOLEN.

Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. — 9 p.m. bob diwrnod
Petrol • Diesel • Nwy Calor • Glo
Cylchgronnau • Papurau Newydd
Cardiau Penblwydd • Wyau
Nwyddau Groser • Melysion

Cyfle i ennill £10 bob wythnos i bawb sy'n prynu petrol

'Un funud fach . . .'

D.V.

Mae'r dadlau'n parhau ynglŷn â Thŷ Opera newydd Caerdydd. Yr wythnos hon mae Bryn Terfel wedi datgelu na fydd modd iddo ganu yn yr agoriad swyddogol os na cheir penderfyniad buan i godi'r adeilad. Mae ei ddyddiadur yn llawn am y saith mlynedd nesaf, mae'n debyg. Mae'n amlwg bod tai opera'r byd yn trefnu ymhell ymlaen i'r dyfodol. Ond nid yw clywed hynny yn syndod yn y byd i weinidog. Mae'r rheiny wedi hen arfer cael llythyr neu alwad ffôn yn gofyn am gyhoeddiad yn Salem a Seion a Seilo ymhen pum neu chwe mlynedd. Synnwn i ddim na fedrai ambell weinidog ddweud wrthyhch lle bydd yn pregethu ddydd Sul, Ionawr 1af, 2006. Ai hyder ynteu hyfdra yw peth felly deudwch?

Tueddu i gymryd y dyfodol yn ganiataol y bydd y rhan fwyaf ohonom. Mae gennym gynlluniau a disgwyliadau ar gyfer gwaith a theulu. Mae gennym fwriadau a breuddwydion am iechyd a llwyddiant a chyfoeth. 'Yfory, fe wnawn y peth yma, ac fe awn i'r fan acw,' yw hi o hyd.

Mae'n dda ein bod yn gallu edrych ymlaen, a'n bod yn gallu breuddwydio am y dyfodol. Ond gwnawn hynny gan ymddiried yn y Duw y mae ein holl ddyddiau yn ei law. Ceisio ymddiried yn yr hyn sydd ganddo Ef ar ein cyfer, a disgwyl am ei gymorth a'i fendithion Ef sydd angen i ni ei wneud. Duw sy'n trefnu ein dyddiau; Duw sy'n gwybod beth fydd eu lled a'u hyd; Duw sy'n gwybod beth sy'n ein wynebu yn ystod y flwyddyn newydd hon; a Duw fedr ein helpu a'n nerthu i'w wynebu.

Sut flwyddyn fydd yr un newydd hon? Beth gawn ni neu beth wnawn ni eleni? Wyddom ni ddim. Ond mae modd ei hwynebu yn hyderus wrth bwysu ar y Tad Nefol sy'n gallu rhoi llawenydd a nerth a gras a chysur yn ôl angen pob dydd a phob amgylchiad.

Deo Volente yw hi arnom o hyd; gwneud y peth hyn, a chael y peth arall 'os Duw a'i mynn'. Gall y sylweddoliad hwn droi'n fendith ac yn gymorth real i ni eleni eto. Blwyddyn newydd dda i chi i gyd.

JOHN PRITCHARD

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Becws Eryri. Ffôn: 870491

Camera yng ngofal John Pritchard, Cilfynydd. Ffôn: 872390

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd y cyfarfod misol o'r gangen yn festri Eglwys Sant Padarn bnawn Mawrth, 9fed o Ionawr. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mrs Dilys Phillips. Y gŵr gwadd oedd Curad Caernarfon, y Parchg Emyr Owen, a chafwyd amser difyr dros ben yn ei gwmni pan eglurodd yn fanwl am ei alwad i'r weinidogaeth. Diolchwyd iddo ac i'r merched oedd yn gyfrifol am y lluniaeth, sef Mrs Bet Hughes a Mrs Marjorie Edwards, gan Mrs Audrey Evans ac eiliwyd gan Mrs Muriel Morris.

Enillwyd Clwb Ffrindiau Ysgol Dolbadarn am fis Ionawr — £35: Mrs B. Owen, Maes padarn (136); £25: Gareth Jones, 30 Stryd Fawr (23); £15: Miss K. Jones, d/o Craigwel (99); £10: Mrs M. Jones, 19 Maes Padarn (88); £5: Mrs G. Roberts, Hyfrydle (48).

Cymdeithas Cyhoeddusrwydd: Cymdeithas yw hon ag iddi'r bwriad o hybu busnes ymwelwyr yr ardal. Mae mwyafrif yr aelodau yn rhedeg gwestai, siopau ac atyniadau ymwelwyr, gyda chynrychiolwyr hefyd o'r cynghorau lleol. Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y Gymdeithas yng Ngwesty'r Fictoria ar Ionawr 17eg. Yn y cyfarfod penderfynwyd gwahodd cynrychiolwyr o'r prif weithgareddau sydd i'w cynnal yn yr ardal yn ystod 1996 i gyfarfod a gynhelir yn Yr Oriel ar Chwefror 6ed, i drafod pa fath o gymorth a all y Gymdeithas ei roi i'r gwahanol fudiadau. Y Cynghorydd Noel Davies fydd yn cadeirio'r cyfarfod. Mae gwahoddiad yn cael ei estyn i drefnwyr Y Rali Geir (20-21 Ebrill); Canmlwyddiant Trên Bach yr Wyddfa; Ras Ryngwladol yr Wyddfa (13 Gorffennaf); Carnifal Llanberis (20 Gorffennaf).

Y Gymdeithas Undebol: Mr Huw Hughes, Bethel, oedd y gŵr gwadd yng nghyfarfod cyntaf 1996 a gynhaliwyd yn festri Capel Coch, nos Fawrth, Ionawr 9fed. Dangosodd ddwy ffilm fideo ddiddorol; ffilm o drên bach y chwarel ar ei thaith o'r Gilfach Ddu i'r Felinheli; a ffilm a wnaethai Mr Hughes ei hun o adfeilion Chwarel Dinorwig. Llywyddwyd y cyfarfod gan Mr Bert Parry. Yn y cyfarfod nesaf a gynhelir yn festri Capel Coch, am 7 o'r gloch, nos Fawrth,

Chwefror 6ed, ceir darlith gan Mr Guto Roberts, Rhos-lan. Estynnir croeso cynnes i bawb.

Yr Urdd: Llongyfarchiadau i Ceri Jones am wneud mor dda yn y Gala Nofio Cenedlaethol a gynhaliwyd ym Mangor cyn y Nadolig. Cafodd Ceri fedal efydd yn y ras pili-pala.



Ceri Jones.

Capel Coch: Roedd cynulleidfaf gref yng ngwasanaeth Nadolig y plant a gynhaliwyd bnawn Sul, Rhagfyr 24. Roedd dosbarthiadau'r Ysgol Sul wedi paratoi eu cyfraniadau eu hunain ar gyfer y gwasanaeth, a diolchwn i'r athrawon am eu gwaith caled ac i'r plant a wnaeth eu rhan mor ardderchog. Gwnaed casgliad tuag at Apêl Keith Williams, Cwm-y-glo.

Diolchiadau

Dymuna Elizabeth Griffiths, 23 Dôl Elidir, ddiolch o galon i'w chymdogion a'i holl ffrindiau, ac i feddygon Llanberis a Llandudno am eu caredigrwydd pan oedd hi yn sâl yn ddiweddar.

Dymuna Mrs Maggie Hughes, 2 Rhes y Faenol, ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llu cardiau, anrhegion, blodau a galwadau ffôn a phob ymweliad a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 80 oed. Diolch yn fawr.

Dymuna teulu y diweddar Hugh Jones, 79 Maes Padarn, ddiolch yn ddifffuant am bob amlygiad o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli un annwyl. Diolch o galon i bawb.

Dymuna Mrs Nancy Hughes a Michael, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd a'u cydymdeimlad yn eu profedigaeth o golli y diweddar Mr Cledwyn Hughes, Maes Padarn. Roedd Cledwyn yn ŵr, tad a thaid arbennig iawn ac mae ei farwolaeth yn golled fawr i bawb a'i adwaenai. Diolch i Mrs Betty Lloyd a Mrs Jenny Ellis (Deiniolen) am eu ffyddlondeb dros amser anodd a phoenus. Diolcha Michael hefyd i staff Cartref Nyrsio Penisarwaun am y gofal ardderchog mae ei fam yn ei dderbyn.

Angen Dosbarthwr: Ydych chi'n barod i helpu i ddobarthu'r Eco yn Llanberis? Mae arnom angen un neu ddau i ddosbarthu ym Maes Padarn. Os gellwch ein helpu cysylltwch â Gwilym Evans, Tŷ Crwn (872034) os gwelwch yn dda. Nid yw'n ormod o waith, ond byddwch yn gwneud cyfraniad pwysig i lwyddiant y papur.

Pêl-droed: Bu dau dîm pêl-droed 5-bob-ochr yn cynrychioli Adran yr

Urdd yn y gystadleuaeth flynyddol i Adrannau Eryri ym Mangor ddydd Sadwrn, Ionawr 13. Llwyddodd un o'r ddau dîm i gyrraedd y rownd gyn-drefynol. Llongyfarchiadau i'r timau am wneud mor dda. Yr hogiau fu'n chwarae oedd Aaron Lloyd Jones, Mathew Pike, Philip Foulkes, Aaron Wyn Watkinson, Dylan Evans, Owain, Rhys ac Iwan Morris, Dafydd a Gethin Pritchard.

Tywydd Mawr: Bu cryn drafod yn ddiweddar a ddylid cael toriad yn y tymor pêl-droed ganol gaeaf yng ngwledydd Prydain. Mae llawer o'r farn y byddai'n well peidio chwarae gêm am ryw chwe wythnos ar ddechrau'r flwyddyn. Os yw awdurdodau'r gêm broffesiynol yn ystyried hyn o ddifri, siawns na allai trefnwyr y cynghreiriau lleol ar gyfer plant fabwysiadu'r cynllun hefyd. Methodd tîm dan 9 oed Llanberis chwarae gêm ers dechrau Rhagfyr, a gohiriwyd pum gêm ers hynny oherwydd y tywydd garw. Byddwn yn rhoi cynnig arall arni'r Sadwrn nesaf, Chwefror 3, a gobeithiwn allu mynd i Gaernarfon i chwarae yn erbyn Cae Glyn 'A'. Ymddiheurwn am yr holl ohirio. Gobeithio nad ydym yn drysu gormod ar fore Sadwrn y rhieni a'r plant. Does dim allwn wneud, ond ceisio perswadio'r Gynghrair i beidio trefnu gêm ganol gaeaf y tymor nesaf.

Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon: Mae Pwyllgor Apêl Llanberis wedi trefnu Noson Carioci fel rhan o'u hymdrech i godi arian at yr Ŵyl a gynhelir yng Nghaernarfon eleni. Cynhelir y Noson Carioci yng Ngwesty'r Fictoria, nos Wener, 2 Chwefror am 8 o'r gloch. Bydd y noson yng ngofal Raymond Jones, Swyddfa'r Post.

Mae'r pwyllgor hefyd wedi trefnu Noson Bingo yng Ngwesty Dolbadarn, nos Wener, 23 Chwefror 1996. Croeso cynnes i ddarlennwyr yr Eco i'r noson hon. Bydd gwobrau da yn cael eu cynnig a llawer o hwyl.

Dyddiad i'r Dyddiadur: Mae Pwyllgor Apêl Llanberis yn tefnu Cyngerdd yng Nghapel Coch, Llanberis, nos Sul y Pasg, sef 7 Ebrill 1996. Yr artistiaid fydd Côr Godre'r Garth, Caerdydd.

Ysgol Dolbadarn: Croeso'n ôl i'r Ysgol i Mrs Susan Brookes wedi ei chyfnod absenoldeb mamolaeth.

Ar yr un pryd, diolchwn i Mrs Edwina Clarke am ei holl waith tra roedd hi gyda ni yn lle Mrs Brookes yn ystod y misoedd diwethaf.

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor
Ffôn: 870440

Bedydd: Bedyddiwyd Robat Henri, mab Brian a Lola Owen, Dolwen, gan y Parchg Philip Hughes yn Eglwys Sant Peris ar 28 ain Ionawr 1996. Dymuna lola a Brian ddiolch i'r rhieni bedydd, Miss Hayley Griffith, Mrs June Jones a Mr Dennis Jones. Hefyd, diolch i Miss Susan Jones a Mrs June Jones am baratoi'r lluniaeth. Gwerthfawrogir hefyd yr anrhegion a'r cardiau a roddwyd i Robat ar achlysur ei fedydd.

Y Fynwent: Mae'n dda gweld bod y gwaith o baratoi y fynwent newydd ar y gweill. Bydd y fynwent yn cael ei chynnal wedyn gan y Cyngor Cymuned lleol, sydd wedi bod yn gyfrifol am yr holl waith o sicrhau'r datblygiad.

Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon 1996
Pwyllgor Apêl Llanberis

NOSON CARIOCI

yng Ngwesty'r Fictoria
nos Wener, Chwefror 2.
am 8 o'r gloch

NOSON BINGO

nos Wener, Chwefror 23
yng Ngwesty Dolbadarn

DOWCH YN LLU
GWOBRAU DA
DIGON O HWYL

EISTEDDFOD LLANBERIS

Bwriedir cynnal
Eisteddfod Llanberis
nos Wener, Mai 24, 1996

Bydd y rhestr o destunau
ar gael erbyn diwedd
Chwefror.

Ceir rhagor o fanylion yn
rhifyn nesaf yr Eco

O SIAMBAR SELWYN

Fel arfer mi fyddai'n cael un neu ddau ohonyn nhw yn anrheg, felly fyddai ddim yn trafferth i brynu un. Ond leni — ches i 'run, a dechra'r mis ma roedd hi'n gwblw angenrheidiol i mi gael un ar fyrder neu mi fydda gen i broblema. Ydi ma hi'n gwblw amhosibl i mi fynd drwy weithgarwch blwyddyn heb gael un o rhain.

Mae gen i dros hanner cant ohonyn nhw. Ma nhw'i gyd wedi eu gwasgu i hen focs sgidia a chyfrinacha hanner canrif yn swatio o fewn i'w cloriau nhw. Ambell dro mi fyddai yn i styrbio nhw, ac yn chwilio ac yn chwalo am ryw ffaith ddi-bwys ynglŷn a ystod y blynyddoedd a fu. Pwy enillodd Gwpan yr FA yn 1938? I bwy rois i'r Gadair y tro diwetha i mi feirniadu yn Steddod lle ar lle? Ymhle roeddwn i'n aros yn ystod Prifwyl Abertawe 1964? Pryd bum i yn dringo'r Ayres Rock? Pryd bum i'n hedfan mewn awyren fach dros y Grand Canyon?

Mae'r cyfan yn y llyfrau bach, ac rydwi newydd orffen llenwi yr *hyn a fedrai* o'r un newydd ma hefyd — un am 1996. Rydwi'n rhy hen i wneud addunedau blwyddyn newydd bellach, ond mi rydwi'n awyddus iawn i gadw fy addewidion ac heb y llyfr bach hwn mi fyddai'n gwblw amhosibl i mi gyflawni hyn, am y rheswm syml fod gen i go' fel gogor.

Ydw rydwi wedi llenwi bylchau mewn sawl tudalen. Yr un hen bethau â'r blynyddoedd a fu. Dwi wedi addo gwasanaethu mewn abell i Steddod eleni eto, a mynd i ddarlithio i nifer o gymdeithasau. *Darlithio?* Na — i roi sgwrs yn hytrach. Dyddi ddim yn hapus hefo'r gair darlithio na — mae o'n rhy barchus o ysgolheigaidd gen i. Mae sgwrs yn fwy syml a chartrefol.

Dwi'n sylwi hefyd i mi addo mynd i nifer o ysgolion i sgwrsio hefo'r plant ac i gael *Hwyl Hefo Geiriau*. Mi fyddai'n cael pleser mawr o wneud hyn. Roeddwn i'n gwrando ar y Prifardd T.

Llew Jones ar y rhaglen Beti a'i Phobol dros y Nadolig ma, a T. Llew yn cyfadde fod cyfansoddi a throi ym myd plant yn cadw'i feddwl o'n ifanc. Rwy'n cytuno gant y cant. Yr hyn sy'n anffodus yw na dydio ddim yn cadwch corff chi mor heini.

R. Williams Parry ddwedodd ynte — *'Creadur twp hanner pan ydi bardd. Dyn mewn oed gydag ymennydd plentyn.'* Fo ddwedodd hefyd mewn ysgrif yn y Beirniad yn 1911, *'Gwyn fyd y bardd ni roes heibio, pan aeth yn ŵr, lefaru a deall a meddwl fel plentyn.'* Gwir a ddywedodd.

Be arall sy'n duo tudalenau llyfr bach 1996? Wel — ambell i bwyllgor. Ambell i gêm bêl-droed rwy'n awyddus i'w gweld yn Anfield. Mae *Mai yr 11eg* wedi ei farcio mewn coch, sef diwrnod y Cup Ffeinal rhag ofn i mi wneud camgymeriad a derbyn gwahoddiad i rywle. Dyna'r unig ddiwrnod o'r flwyddyn y bydda i yn gwisgo fy siwt orau — er mai Cwpan Lloegr ydi hi.

Mae na sawl taith wedi ei threfnu. Un ohonyn nhw i Ynysgoed yr Orkneys a'r Shetlands. A'r gwyliau blynyddol wrth gwrs. Mae na wahaniaeth rhwng mynd ar daith neu fordaith a mynd ar wyliau. Rydwi'n mynd ar wyliau ers blynyddoedd bellach i le o'r enw Requetas de Mar ar arfordir Almeira yn Sbaen. Fyddai'n gwneud dim yno ond darllen, diogi, ac yfed chydig o win coch. Ymlacio'n llwyr fel y dylai rhywun wned ar wyliau. Dydi teithio o le i le, o faes awyr i faes awyr, codi'n gynnar a thaith hir mewn bys ddim yn wyliau delfrydol.

Peidiwch a nghan-ddeall — rydwi wrth fy modd yn teithio'r byd — ond mi fyddai'n gwerthfawrogi gwyliau diog hamddenol hefyd. Mae na hen ddihareb Sieniaidd yn dweud fod y sawl sy wedi teithio mil o filltiroedd yn ddoethach na'r sawl sy wedi darllen mil o lyfrau. Digon gwir.

Ydi ma'r tudalennau wedi

duo, a chyn daw 1996 i ben, mi fydd na sawl dyddiad arall yn hawlio cael ei gofio am wahanol resymau. Storm, damwain, priodas, angladd. Ydw rydwi wedi sylwi yn ystod y blynyddoedd diwetha ma fy mod i'n mynd i fwy o angladdau.

Arwydd yw hyn fy mod innau'n heneiddio reit siŵr, er fy

mod i'n ceisio *llefaru a deall a meddwl fel plentyn*.

Mae'n debyg mai'r un gorchwyl fydd gen i hefo llyfr bach 1997. Hynny yw — os byw ac iach ynte.

Dydi ddim yn rhy hwyr i mi ddymuno 1996 hapus i bob un ohonoch.

Cerddi Siôn Cilan

Yn y llyfryn *Cerddi Siôn Cilan*, o dan olygyddiaeth Dic Goodman, cawn gasgliad o englynion un o feirdd ei filltir sgwâr yn Llŷn. Rhwng ei gloriau mae pedwar a thrigain o englynion dwys a ffraeth wedi eu cysylltu'n naturiol ac yn ddifyr gan nodiadau i egluro eu cefndir a'r cymhelliad a daniodd yr awen.

Dywed yr awdur, *'Roedd yn hwyr ar y dydd pan gefais i fy mhigo gan chwilen y gynghanedd'*. Buan y daeth i fwynhau'r grefft ac, yn aml, yn ei chael yn gyfrwng i fynegi ei deimladau diffuant a dwfn.

Fe'i ganwyd yn ystod caledi ddechrau'r ganrif daflad carreg o gartref y Prifardd Alan Llwyd ger Porth Ceiriad. Dyma'i deyrnged i'w gartref a'i fagwraeth sydd yn fynegiant annwyl a syml o'r cyfnod hwnnw o gyni mor fawr:

TAN Y GRAIG

Dan ei goes rwy'n mynnu oedi, — hen fwrth
Di-foethau fy ngeni;
A cheiniog mam o'i chyni
Ddwedai werth ei haberth hi.

Ei werthoedd, yn deillio o'i ymlyniad diysgog at grefydd ei gapel, sydd yn ysbrydoli rhai o'r

englynion, a hynny yn rhwydd a di-straen fel yn ei ddeisyfiad canlynol:

CHWERWEDD

Iselder a hen chwerwedd — dyna friw
Dan y fron yn gorwedd;
O! Iesu rho hynawsedd
Dry'n clefyd yn hyfryd hedd.

Ond, i Siôn Cilan, gyda'i chwerthiniad iach, nid yw ffraethineb yn bell. Dylasai'r gwpled hon o'i englyn i fodurdy Rhydgaled, Nanhoron, fod ar flaen pob sefydliad o'r fath yn Llŷn:

Cewch bopeth o beth y bo
O nyten i fagneto.

Yn ei gasgliad mae'n hiraethu am gyfoedion a chyfeillion, yn cofio troeon trwstan, yn tynnu coes, yn cyfarch, yn diolch ac yn diweddu gydag emyn o'i eiddo a ganwyd ym mhriodas ei wyres. A'r cyfan yn rhan o gynefin a rhuddin gwir werinwr sydd â'i encil ym mhen Cilan. Bargaen o gasgliad. Mynnwch ef i'w fwynhau a'i drysori. A.H.

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
675754


MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD
CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

Ffôn/ffacs: 650291



Dewis eang o
Welyau a '3P/Suites'.
Lleni 'Venetian' a Llenni 'Roler'
5,000 llathen sgwâr o garpedi
mewn stoc — allwch chi
fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor
9-7pm
9-5pm Sadwrn
Ar Gau
Sul a Mercher

Alwyn a Sarah Jones

RACCA
PENISARWAUN

★ Blodau ar gyfer pob
achlysur

hefyd

★ Dewis da o Lysiau
Fferm.

★ Wyau 'Free Range'
Ar agor saith diwrnod



870605

LLYSIAU AR
GYFER PICLO

Hoffem eich cyflwyno i'r tîm o Reolwyr a Phenaethiaid Adran y dylech gysylltu â nhw yng Ngwesty Seiont Manor. Ym mherch-nogaeth Dŵr Cymru, caiff y gwesty ei redeg gan Virgin Hotels Ltd sydd hefyd yn rhedeg dau o westai eraill Dŵr Cymru.

Siaradwch efo'r arbenigwyr



Eleri Llwyd Jones

Eleri yw Rheolwr Cyffredinol y Seiont Manor, gwesty ag iddo 28 ystafell wely. Dychwelodd i Gymru o swydd uchel yn Llundain. Hoffai Eleri i'r gwesty fod yn ymwneud â'r gymuned. Felly, os oes gennych brosiect neu gynllun a allai fod o ddiddordeb iddi, rhwch alwad ffôn os gwelwch yn dda.

Simon Sutherland

Ers iddo dychwelyd i Gymru fis Hydref y llynedd, Simon sy'n gyfrifol am gyflogi a hyfforddi staff. Fel Rheolwr Bwyd a Diod mae hefyd yn cadw golwg gyffredinol ar y gegin, y bwyty, gwleddoedd a'r bariau. Felly, os ydych eisiau ymuno â'r tîm, fo ydi'r dyn i'w holi.

Richard Treble

Richard ydi'r Prif Gogydd — yr *Head Chef*. Bu hefo ni ers rhai blynedd bellach ac mae o hefyd yn darlithio mewn coleg alrwy lleol. Yn byw yn Llanberis, mae'n falch o fedru cynnig dewis o brydau blasus gan ddefnyddio

perlysiâu cartref a chynnyrch ffres lleol mewn modd cartrefol a chreadigol.

Joe Bills

Joe ydi Rheolwr Ariannol y gwesty, dyn poblogaidd iawn os ydych chi'n ceisio cael hyd i'r bil neu daliad. Mae hefyd yn edrych ar ôl y 'Sales Ledger'. Efallai, felly, y bydd o yn eich galw chi.

Susan Morris

Bu Susan hefyd yn y gwesty ers peth amser, yn trefnu eich priodas neu ginio aawns. Gyda chymorth ei tîm o staff lleol fe wna bopeth o fewn ei gallu i wneud eich diwrnod yn un arbennig iawn.

Jillian Davies

Hogan o'r Alban sydd wedi priodi Cymro a symud i lawr yma am ei bod yn gynhesach! Os ydych eisiau trefnu i grŵp o bobol aros yma — er enghraifft, ar gyfer cynhadledd, priodas neu ginio aawns, yna Jillian ydi'r ferch i'ch helpu. Os gall eich cwmni gynnig gwasanaeth neu weithgaredd ar

gyfer ein gwesteion, dewch i gysylltiad os gwelwch yn dda — byddai'n hapus i roi'r manylion i'r gwesteion.

Matthew Naylor

Pennaeth y Bariau, sy'n edrych ar ôl eich cwrw. Mae ei dîm yn gweithio ym Mar y Llyfrgell yn gwerthu diodydd a phrydau bar amser cinio a fin nos. Os ydych eisiau diod gwahanol ar gyfer eich priodas neu ginio aawns, mynnwch air.

Steven Johnson

Steven ydi Pennaeth y Dderbynfa — sy'n ateb y ffôn, ac yn cymryd archebion ar gyfer aros yn y gwesty a byrddau yn y bwyty. Os am delerau arbennig ar adegau tawel — ffoniwch Steven.

Tony Pugh

Tony ydi'r Prif Bortar. Gyda'i griw o borthorion dydd a nos, mae'n trefnu coffi yn y bore a the yn y pŵn, lluniaeth mewn cynadleddau a pharatoi 'stafelloedd' ar gyfer cyfarfodydd a phriodasau.

ORIAU AGOR

Coffi Bore: 10am — 12pm
Byrbrydau Bar: 12pm — 2pm
Te Prynhawn: 2pm — 5pm
Derbynfa: 7.30am — 11.30pm

Cinio yn y Bwyty: 12pm — 2pm
Pryd Nos: 7pm — 10pm (9.30pm Sul)
Clwb Hamdden: 7am — 9pm
Bariau ar agor: 11am — 2.30pm; 6pm — 11pm

DYDDIADUR DIGWYDDIADAU

Dydd Mercher, 14 Chwefror

Cinio dathlu Gŵyl Sant Ffolant. Dangoswch i'ch cariad eich gwir deimladau drwy drefnu cinio rhamantus i ddau gydag anrheg i'r ferch gennym ni yn y fargen. Beth am aros nos — gyda'n pecyn aros rhamantaidd gellwch fwynhau siampaen gyda'ch brecwast yn eich ystafell.

Dydd Iau, 1 Mawrth

Cinio a phryd nos i ddathlu Gŵyl Ddewi. Bwydlen Geltaidd wedi'i llunio o gynnyrch Cymru — prydau traddodiadol a modern a baratowyd gan dîm llwyddiannus ein cegin.

Dydd Sadwrn, 16 Mawrth

Noson arall o riantwch Celtaidd i ddathlu Gŵyl

Sant Padrig o Iwerddon — cerddoriaeth Wyddelig, a chydâ'r Guinness (gwin y gwan) a'r Jamieson yn llifo, buan iawn y profwch hwyl y parti.

Am fanylion pellach am unrhyw un o'r dathliadau uchod ffoniwch Jillian Davies neu Simon Sutherland ar (01286) 673366.

Digwyddiadau eraill ar y gweill yn 1996

Chwefror: Dydd Mawrth Ynyd (Crempog) — danteithion o'n bwydlen 'Dip 'n' Dine'

10fed Mawrth: Yn ein Ffair Briodasau cewch weld y gorau gan ddylunwyr Cymreig a chwmnïau lleol.

Gwylwch am fanylion digwyddiadau eraill yn nes i'r amser.

Virgin
HOTELS
— LIMITED —

**GWESTY SEIONT MANOR HOTEL, LLANRUG,
CAERNARFON, GWYNEDD. LL55 2AQ**

Ffôn: (01286) 673366 · Ffacs: (01286) 672840

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: Felinheli 670726

Camera yng ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (0248) 670115

Merched y Wawr: Mis Rhagfyr. Cafwyd cinio Nadolig y gangen yng Nghastell Cidwm, Betws Garmon. Croesawyd pawb i'r wledd gan y llywydd, Mrs Gwyneth Jones, a dymunodd yn dda i Mrs Joyce Gaffey, yr ysgrifennydd, a oedd yn methu bod yn bresennol. Llongyfarchodd yr Ysgol Gynradd ar lwyddiant y Sioe Gerdd ac hefyd i bawb o blant yr aelodau a wnaeth mor dda yn yr Eisteddfod Bentref, heb anghofio yr ysgrifennyddes Mrs Rita D. Williams, y trysorydd Mr J. M. Griffiths a'r llywydd, Mr Goronwy Jones, am eu gwaith trylwyr. Dymunodd yn dda i Mair Jones, Glan-gors a'r teulu sy'n symud i fyw i 12 Tan-y-cae.

Dathlwyd y Nadolig yng Nghapel Cysegr gyda phlant Ysgolion Sul yr ardal. Cymerwyd y rhannau arweiniol gan llywydd y gangen, Mrs Gwyneth Jones, Y Fachell. Arweinydd y gân oedd Mrs Deilwen Hughes, Bryn Ogwen, a'r organyddes oedd Mrs Beti Owen, Crud yr Awel. Cafwyd darlenniadau gan Mrs Jan Roberts a Mrs Mair Reed. Cafwyd eitemau gan gôr y gangen dan arweiniad Mrs Deilwen Hughes. Cyhoeddwyd y Fendith gan y Parchg W. R. Williams.

Mis Ionawr. Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf y flwyddyn nos Fercher, 10 Ionawr, yn yr Ysgol Gynradd. Roedd nifer dda o'r aelodau yn bresennol a dymunodd y llywydd, Gwyneth Jones, flwyddyn newydd dda i bawb.

Darllenwyd llythyr o ddiolch oddi wrth Mrs Kit Jones, ysgrifennydd MAID am rodd o £161.45 a gasglwyd yng ngwasanaeth 'Dathlu'r Nadolig' yng nghwmni plant Ysgolion Sul yr ardal. Dymunwyd gwellhad buan i Lois, merch Rhian Hughes, a oedd yn yr ysbyty a llongyfarchwyd Mair Jones, Glan-gors gynt, ar ddod yn nain unwaith eto. Mae manylion cystadlaethau celf a chreffft Sioe Llanellwedd i'w cael gan Eirlys Williams, Y Ddôl.

Gwraig wadd y noson oedd Mrs Miriam Jones, Siop y Plas, Caernarfon. Cafwyd noson ysgafn yn ei chwmmi a soniodd am ei gwaith ym myd gemau. Diolchwyd iddi gan Nan Rowlands. Y gwestwagedd oedd aelodau'r pwyllgor ac enillwyd y raffl gan Glenys Griffiths.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fercher, 14 Chwefror, pryd y disgwylir Delyth Bryan i wneud 'Aerobics' felly dillad ac esgidiau addas i'r cyfarfod yma! Bydd tocynnau y Sioe Ffasiwn ar gael yn y cyfarfod — dewch a'ch arian, byddwn hefyd yn erbyn enwau ar gyfer ein Swper Gŵyl Ddewi.

Gair gan Y Cynghorydd R. Hefin Williams (Cynhorydd Ward Bethel): Yn dilyn cyfarfod rhwng Cynghorwyr yr ardal a Phrif-weithredwr y Cyngor Unedol newydd, Mr Geraint Jones, a gynhaliwyd yn Hafan Elan, Llanrug, ar 7 Rhagfyr, hoffwn ichwi wybod am y pwyntiau a dynnais sylw atynt yn ardal Bethel:

1. Mae gwir angen gwella cyflwr arwynebodd y ffordd yn ardal Saron, 10

sef y strydoedd o flaen a thu cefn i'r Swyddfa Bost.

2. Mae'r gwaith atal llifogydd a gorlifo carthffosiaeth ar fin cael ei ddechrau gan Dŵr Cymru, hoffwn ichwi sicrhau fod pob cymorth a chydweithrediad pob adran o'r cyngor yn cael ei roi i gwblhau'r gwaith cyn gynted a bo modd.

3. Rheoli cyflymdra ar y lôn gefn ym Methel (rhwng Tyddyn Difyr a Llys Myfyr).

Eglurwyd mai'r anhawster mwyaf yn y dyfodol fydd diffyg arian, oherwydd y cwtogi gan y Swyddfa Gymreig a'r Llywodraeth mae'n debygol y bydd angen codi'r trethi yn yr ardal yma hyd at 35 (ie, tri deg pump y cant!!!). Bydd y codiad yn y trethi yn angenrheidiol er cadw safonau'r gwasanaethau fel ag y maent, a gwyddom bod gwir angen eu gwella. Os bydd yn rhaid cwtogi ar y gwasanaethau er mwyn gostwng y trethi mae gwir beryglon i ddyfodol ysgolion a chartrefi henoed. Ystyriwch yr effaith a fyddai cwtogi o 3% yn ei gael ar yr ysgol leol. Awgrymwyd mai da o beth fyddai i drigolion yr ardal ysgrifennu i'r Swyddfa Gymreig i geisio eglurhad am y gostyngiad yn yr arian y mae'r ardal hon i'w dderbyn.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i longyfarch prifathro a staff yr Ysgol Gynradd am yr adroddiad arbennig o dda a dderbyniwyd gan Arolygwyr ei Mawrhydi yn ddiweddar. Da oedd gweld bod cydweithio rhwng y gymuned, y plant a'r ysgol.

Y CYNGHORYDD R. HEFIN WILLIAMS
Cydymdeimlo: Ddydd Mercher, 3 Ionawr, yn 85 mlwydd oed, bu farw Mr Gwilym Davies, 4 Y Ddôl. Estynnir pob cydymdeimlad â'r teulu yn eu profedigaeth.

Ddydd Llun, 22 Ionawr, bu farw Mr Robert Morgan, Cremlyn. Estynnir pob cydymdeimlad â Gwilym lolo a'r teulu yn eu profedigaeth.

Clwb 200 Y Neuadd: Enillwyr gwobrau mis Rhagfyr oedd — £20: Susan Newton, Llwydiarth (213); £10: Nigel Hardwidge, Silyn (102); £5 yr un: Griffith Jones, Trigfa, Erw Bian (205); Gwyndaf Williams, Llyfnwy (107); Hefin Jones, 7 Stad Eryri (113); Meinir Roberts, Gwynfryn (167); June Jones, 5 Bro Rhos (186); Goronwy Owen, 18 Cremlyn (35); lolo Morgan, 7 Tan-y-cae (68); Caron L. Jones, Caernarfon (209).

Yr Urdd: Mae gweithgareddau tymor y gwanwyn bellach wedi cychwyn a threfnwyd tymor o weithgareddau difyr o hyn hyd y Pasg. Nos Wener, 1 Mawrth, cynhelir y Noson Goffi flynyddol pan fydd aelodau sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod Cylch yn cael cyfle i berfformio. Croeso cynnes i bawb i gefnogi'r cystadleuwyr.

Llongyfarchiadau
Llongyfarchwn Aled Jones, Y Fachell, ar ei ethol yn gadeirydd Ffederasiwn Ffermwyr Ieuaic Eryri. Mae Aled yn weithgar iawn yn y mudiad a'r gangen leol ers blynyddoedd a dymunwn yn dda iawn iddo yn ei swydd newydd.

Llongyfarchiadau i Sioned Catrin

Gwasanaeth Nadolig Capel Cysegr



Y plant a'r ieuenctid a gymerodd ran yn y gwasanaeth.



Rhai'r o'r plant a'r ieuenctid yn dangos inni thema'r gwasanaeth.

Davies, Garth, ar lwyddo i basio arholiad piano, gradd 5, gydag anrhyddedd.

Diolchiadau

Dymuna Myfanwy a Geraint Harper, Fferm Tŷ Newydd, Llandegai, ddiolch o galon i bawb am y llu cardiau, rhoddion a'r dymuniadau da a dderbyniasant ar enedigaeth Iwan Huw. Diolch yn arbennig i staff Ward Ffranccon, Ysbyty Gwynedd am bob gofal.

Dymuna Richard, Mary a Rhys, 5 Y Ddôl, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad gan gyfeillion a chymdogion yn dilyn colli mam a nain annwyl yn ddiweddar.

Clwb 100 yr Ysgol Gynradd: Y mis yma ceir rhestrau o enillwyr misoedd Tachwedd, Rhagfyr a Ionawr. Tachwedd — £20: Evelyn Roberts, 4 Ty'n Lôn, Y Felinheli (98); £15: Joyce Gaffey, 3 Bro Eglwys (21); £10: E. Pierce, Prysgol, Pen-y-groes (99); £7: Trefor Jones, Llain y Grug, Mynydd Llandegai (42); £5: Iola Jones, Hafan (8). Rhagfyr — £20: Dewi Wyn, Cenarth (118); £15: Wendy Grail, 19 Y Ddôl (101); £10: Nia Morgan, Tegid, Brynsiencyn (33); £7: G. S. Pow, Inglesbatch Farm, Bath (51); £5: David Pritchard, Cae Gwyn, Lôn Bangor, Y Felinheli (38). Ionawr — £20: John Williams, Tyddyn Difyr (57); £15: Jennifer Roberts, Gorwel, 26 Y Ddôl (62); £10: E. Watkin, Ty'n Lôn (108); £7:

Ian Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug (54); £5: Mrs M. Griffiths, 15 Bro Rhos (116). Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Canmoliaeth i'r Ysgol Gynradd: Wrth dderbyn copi o'r adroddiad yn dilyn arolygiad o Ysgol Bethel mynegodd y priathro, Mr Ian Pierce, ei werthfawrogiad o waith yr athrawon, disgyblion a'r corff llywodraethu. Cadarnhaodd yr adroddiad fod safonau cyflawniad ac ansawdd y dysgu, yr addysgu a'r cynllunio rheolaethol yn gyson uchel. Roedd y materion allweddol i weithredu arnynt yn cydymffurfio â disgwyliadau'r ysgol ac yn gosod sail i weithgaredd y blynyddoedd nesaf.

Yn ôl Mr Rhys Harris, cadeirydd y llywodraethwyr, da oedd gweld fod yr ysgol wedi cyfarfod maen prawf yr Arolygwyr o gynnis 'gwerth am arian'. Nodwyd fod 'ansawdd y Cynllun Datblygu Ysgol yn dda; mae'n arf gwerthfawr tuag at y cynllunio tymor hir a thrwy hynny yn dylanwadu yn effeithiol ar y safonau cyflawniad. Mae'n rhoi sylw manwl i bob agwedd ar wariant a hefyd yn ystyried goblygiadau adnoddau megis personél ac amser mewn modd defnyddiol.'

Llongyfarchodd cadeirydd y llywodraethwyr y prifathro a'r staff gan lawenhau fod plant Bethel yn cael profiadau addysgol a chymdeithasol o safon ac ansawdd gwerth chweil.

★ Tacsî

★ Maes Awyr



Yfwch chi Gyrrwn ni!

Ffôn: 871049/symudol 0831 429970

neu ffoniwch ni am ddim ar

National Cabline — Freephone 0800-123-444

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

Camera yng ngofal Heulwen Huws, Argoed (650556)

Enillwyr Clwb 300 am fis Rhagfyr oedd — £40: Mr Geraint Davies, Dôl Gwyrfa; £25: Mr Haydn Jones, Rhandirmwyn; £10: Mr Gwilym Williams, Fferm Bodhyfryd. Talwyd hefyd ddwy wobwr ychwanegol o £10 yr un i Mrs Iona Overbury, d/o Dwyfor; a Mr R. Walker, Môr Awel. Enillwyr mis Ionawr oedd — £40: Mrs Jean Jones, Llwyn Onn; £25: Mrs Bethan Thomas, Ty'n Llan; £10: Mrs Gwenerys Jones, Cartrefle.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cyfarfu'r Gymdeithas nos Lun, 15 Ionawr, a chafwyd noson hwyliog a diddorol gan y gŵr gwadd dawnus am adrodd storïau, sef Mr R. Gwynn Davies. Testun y noson oedd 'Rhai o Hen Gymeriadau y Waunfawr' ac yn ôl y gwrandawriad yn y Ganolfan roedd yn amlwg fod pawb yn mwynhau'r sgwrs. Er fod llawer o'r aelodau ffyddlon yn absennol oherwydd gwaeledd roedd yno gynulleidfa deilwng. Y cadeirydd oedd Mr T. Arfon Williams a diolchwyd i Mr Davies gan Mr Gwilym Williams.

Bydd y cyfarfod nesaf ar y 19eg o Chwefror, a'r gŵr gwadd fydd Mr Meirion Hughes, Caernarfon, a'i destun fydd 'Colera yng Nghaernarfon'.

Cydymdeimlo: Yn ystod yr wythnosau diwethaf yma fe gollodd amryw o'r pentref anwyliad ac anfonwn ein cydymdeimlad dwysaf at:

— Mrs M. Williams, Cefn Coed, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd;

— Mrs Julie Freeman, 16 Tref Eilian, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad a oedd yn byw ar Ynys Malta;

— Miss Sylvana Esposito, Tremallt, yn ei phrofedigaeth o golli ei thad;

— Mr Eifion Williams, Bod Idris, yn ei brofedigaeth o golli ei dad;

— Mrs Hughes, Dychwelfa, yn ei phrofedigaeth o golli ei mham.

— Gwenda ac Alvona, a theulu y ddiweddar Mrs Winnie Jones, Gorwel gynt (Anti Winnie Siop Chips) a fu farw'n ddiweddar.

Yn dawl yn yr ysbyty bu farw Mrs M. A. Owen, Bod Arfon, Stad Tŷ Hen. Cofiw'n hi am ei phersonoliaeth hwyliog ac annwyl. Anfonwn ein cydymdeimlad i Evelyn, Eric, Emyr ac Ifor yn eu profedigaeth o golli eu mam.

Cofion: Anfonwn ein cofion at rai o'r pentref sydd wedi mynd i aros i gartrefi preswyl ac at deuluoedd dros dymor y gaeaf; ac at eraill sy'n gaeth i'w cartrefi yn ystod y tywydd oer yma.

Croeso adref: Croesawn Miss Nancy Griffith, Tan 'Rallt a Mrs Grace Dawson, Bro Waun, adref o'r ysbyty gan ddymuno adferiad buan i'r ddwy ohonynt.

Llongyfarchiadau

Dyweddiad: Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Heather Ann Owen, Bryn Môr ar ei dyweddiad â Nigel Wynne Rowlands o Lanberis.

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i John Coles, Bro Waun, a Ceryl Davies, 20 Tref Eilian, ar gyrraedd eu 18 oed. Dymunwn y gorau ichi eich dau yn y dyfodol.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Gareth a Jenni Jones, Glyn Ceris, ar ddod yn daid a nain unwaith eto. Ganwyd mab, Gethin Wyn, i'w mab

Aeron a'i wraig Siân, brawd bach i Catrin Elin. Da gweld fod Gareth wedi gwella wedi iddo orfod treulio cyfnod yn yr ysbyty.

Ymddeoliad: Dymunwn pob hapusrwydd i Mrs Pat Parry, Ffridd Felen, ar ei hymddeoliad o'i swydd fel Swyddog Derbyn Coleg y Normal, ond mae'n siŵr y bydd cyn brysurreb ag erioed gyda'r holl weithgareddau gwirfoddol y mae'n ymwneud â hwy.

Clwb Pêl-droed: Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd tuag at lwyddiant y partion Nadolig.

Mae'r sesiynau ymarfer wedi aildechrau ar nos Lun yn y Ganolfan. Dyfal donc fu hi i'r timau ifanc yn erbyn Bontnewydd — wedi iddynt golli dwy gêm, 4-0 a 5-0, llwyddodd y tîm 'fenga (dan 7 oed) i ennill 2-0, a'r gorrwyr oedd Dafydd a Hefin. Dalied ati bawb!

Rydym yn dal angen mwy o bobl i helpu ar y pwyllgor, gyda'r hyfforddi, ac er sicrhau bod digon o geir i gludo'r plant i'w gêm. Os oes gennych awydd i'n cynorthwyo cysylltwch â Jeff ar 650485 neu Jina a 650578.

Winifred Lloyd Jones (Winnie)

Roedd wedi byw ym Mhennant a Phen-y-groes cyn dod i'r Waun i ymgartrefu. Bu hi a'i diweddar briod yn byw yn y Gwyndy, ac yn cadw'r Siop Chips, cyn symud i Gorwel ac yna i Brestatyn yn 1978. Bu farw'n dawl yng nghwmni ei phlant yng Nghartref Sandford, wedi gwaeledd hir. Bu'n briod fyddlon a charedig i Gwyrfa, mam dyner i Gwenda ac Alvona, mam-yng-nghyfraith i Ray a Dewi, nain hoffus i Helen, Matthew, Heather a Nia, a chwaer annwyl i William Richard.

Bu'r angladd Ionawr 12, gyda gwasanaeth yng nghapel Rehoboth, Prestatyn, ac yna yn Amlogsgfa Bangor, gyda'r Parchgn Ifan Roberts, leuan Lloyd a Richard Jones yn gweinydd. Rhoddwyd blodau gan y teulu'n unig a derbyniwyd arian yn hael at Gartref Sandford er cof am Winnie.

Dymuna Gwenda, Alvona a'u teuluoedd ddatgan eu diolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, Winifred Lloyd Jones.

Diolch hefyd am eich cyfraniad tuag at Gartref Sandford er cof am Winnie.


Diolch: Dymuna Nia Llwyd, Dôl-y-coed, a Garry Griffith, 28 Tan Rhiw, Tre-garth, ddiolch i'w teulu a ffrindiau am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu dyweddiad.

Cyngor Cymuned: Yn eu cyfarfodydd cyn y Nadolig bu'r aelodau'n brys iawn. Yn wyneb y posibilrwydd y gallasai'r cyllid fod yn brin y flwyddyn nesaf oherwydd costau'r Awdurdod Unedol newydd penderfynwyd gofyn yn gadarn am braesept teilwng er mwyn gallu cyflawni prosiectau cymunedol fel lloches bws neu lamp stryd ychwanegol. Bu'n rhaid ystyried goryrru eto, y tro hwn heibio Dôl Erddi, Waunfawr. Torrwyd nifer o frigau coed tua Pant Gwyn hefyd er mwyn

gwella ansawdd golau yn y stryd. Gofynnwyd am gael arwydd toiledau cyhoeddus i wynebu'r cyfeiriad iawn. Rhoddwyd cefnogaeth ariannol i Ysgol Feithrin Waunfawr £150; Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon £100; Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd £50; Cronfa Haematoleg a Chancr Gwynedd £320; Cymdeithas Lenyddol Waunfawr £60. Bydd y Cyngor yn ystyried ceisiadau ym mis Mawrth a mis Hydref yn unig o hyn ymlaen gan ddisgwyl derbyn mantolent ariannol oddi wrth ymgeiswyr gan ei bod yn ofynnol gyfreithiol i wneud hynny gyda'r

ceisiadau. Bu gwelliannau hefyd yng Nghaeathro — cafwyd mynegbost i Rhesdai Brynteg; torrwyd drysni ger Llwyn Celyn a Bryn Gof; adroddwyd am dwll peryglus yn y palmant ger y garej ac un arall yn y ffordd ar gylchfan Caeathro. Mae giât-fochyn ar lwybr Cae Chwarae Caeathro wedi'i thrwsio. Tynnwyd sylw at y diffyg marciau ar y ffordd yn Waunfawr a Chaeathro i ddynodi arosfannau bysiau a'r perygl i'r cyhoedd o'r herwydd. Dymunwyd cyfarchion gorau dros yr Ŵyl i aelodau'r Cyngor ac i holl drigolion y gymuned.

Llyfr gan awdur lleol



Ychydig cyn y Nadolig cyhoeddwyd cyfrol ddiweddar yn y gyfres i ddysgwyr 'Hwyllo 'Mlaen'. Mae'r gyfres erbyn hyn wedi sefydlu ei hun fel cyfres ddefnyddiol dros ben i ddysgwyr eitha profiadol sydd am wella eu Cymraeg gan ddysgu hefyd am Gymru. Mae'r cyfrolau yn ddelfrydol fel gwerslyfrau i'w defnyddio mewn dosbarthiadau nos, neu ar gyfer unigolion sydd am wella eu Cymraeg ar liwt eu hunain. Enw'r gyfrol yw *Gwerth y Byd yn Grawn*, a'r

awdur yw Duncan Brown.

Yr amgylchfyd yw'r pwnc sy'n cael ei drafod — pwnc llosg a chyfoes sy'n effeithio ar bawb. Mae'r awdur yn ein tywys drwy hanes datblygiad yr amgylchfyd yng Nghymru. Er fod y llyfr wedi ei anelu at ddysgwyr mae'n siŵr y bydd o ddiddordeb i Gymry rhugl sydd am ddod i ddeall y byd o'u cwrmpas yn well.

Mae'r gyfrol ar gael yn eich siop lyfrau leol. Pris y gyfrol yw £3.95 a'r cyhoeddwyd yw Y Lolfa.

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: 679501 (gwaith), 677438 (cartref)

Croeso: Trigolyn ieuengaf y pentref yw'r babi newydd yng Ngharreg Lwyd — Robyn Harries Atkinson.

Tynfa Fisol: Enillwyr tynfa fisol Cymdeithas Cae Chwarae Caeathro am fis Ionawr yw — £40: Joe Roberts, Seavies (87); £25: Glyn Evans, Tyddyn Alice (30); £15: Wendy Thomas, 4 Bryn y Gof (55); £5: R. Chambers-Jones, Hafod Wen (94).

Cyrdau'r Capel: Disgwylir y canlynol i bregethu yn ystod yr wythnosau nesaf:

CHWEFROR

4. Parchg W. R. Williams (2)

11. Parchg Gareth Alban (2)

18. Parchg W. R. Williams (10)

25. Parchg Emrys Thomas (2)

MAWRTH

3. Parchg W. R. Williams (2)

Gŵyl Gerdd Dant: Gellir parhau i brynu tocynnau ar gyfer cyngerdd Dafydd Iwan a'i Fand sydd i'w gynnal yng Nglangwna nos Wener, 9 Chwefror. Cynhelir y pwyllgor nesaf nos Lun, 5 Chwefror, am 7.30 o'r gloch yn y Capel.

R. M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR
PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn, Ffôn: 675384.

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed. Ffôn: 677263

Cydymdeimlwn â'r canlynol yn eu profedigaethau: Mrs Ceinwen Williams, Tŷ'r Ysgol, ar golli ei brawd o Ynys Môn; Mr Eifion Evans, 18 Glan Moelyn, ar golli ei fam, Mrs Eileen Evans, Pant Buarth, Brynrefail.

Genedigaeth: Llongyfarchiadau i Alun a Diane Powell, Arberth, Bryn Moelyn ar ddod yn daid a nain am y tro cyntaf. Ganwyd mab bach i Bethan a Dylan.

Marwolaeth: Yn sydyn iawn ar 6 Ionawr bu farw Len Jones, mab Mrs Bet Jones, Lyndale. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf iddi hi a'r teulu oll yn eu profedigaeth. Bydd colled enfawr ar yr aelwyd ac i'r pentref gan fod Len wedi bod mor ffyddlon i'r Eglwys ac i bob gweithgaredd pentrefol ar hyd ei oes yng nghwmni ei fam a'i theulu a'i ffrindiau.

Llongyfarchiadau: Dymuniadau gorau ar ben-blwydd arbennig iawn i Mrs Sara Olwen Edwards, Cilan, Ffordd Glanffynnon, oddi wrth hen griw Fach-wen.

Llongyfarchiadau i Sharon Jones, 19 Bro Rhyddallt, ar ddatlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar 27 Ionawr.

Yr Ysgol Gynradd: Ar gychwyn tymor y gwanwyn cafodd rhai o blant blynyddoedd 5 a 6 gyfle i fwynhau wythnos o weithgareddau yng Ngwersyll yr Urdd, Glan-llyn. Bu'r plant yn ymweld â Chanolfan Dechnoleg Amgen yng Nghoris ac hefyd Celtica ym Machynlleth. Yn sicr cawsant hwyl fawr wrth sgïo yn Nhrawsfynydd a gyda'r nos bu pawb yn mwynhau cymryd rhan yn y gêmiau potes, dawnsio gwerin a'r disgo.

Ar y bore Sadwrn canlynol, er bod rhai o aelodau'r tîm pêl-droed 5-bob-ochr wedi blino, roeddynt yn cymryd rhan yng nghystadleuaeth yr Urdd ym Mangor. Diolch i aelodau'r tîm o flwyddyn 6 am wneud ymdrech mor dda.

Mae pawb yn yr ysgol yn anfon ein cofion at Keith, mab Anti Margaret. Da gennym glywed ei fod yn gwella.

Dyma restr enillwyr Clwb Cant yr ysgol — £24: Siôn Emyr Wynne, Fron Hyfryd Uchaf; £12: Eifion J. Williams, 2 Afon Rhos; £10: Beverley A. Taylor, 11 Rhos Rug; £5: Janet Davies, Delfryn, 12 Rhos Rug; £4: Kim Lowther, 20 Nant y Glyn.

Brysiwch Wella: Dymunwn adferiad iechyd i Mrs Ceinwen Mackinnon, Cynefin, Plas Tirion, yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Gŵyl Gerdd Dant 1996: Yn dilyn cyfarfod yn yr Ysgol Gynradd i godi arian ym mhentref Llanrug tuag at yr hanner-canfed Gŵyl Gerdd Dant a gynhelir yn Stiwdio Barcud, Caernarfon, ym mis Tachwedd eleni, rydym yn gofyn i garedigion y pentref gyfrannu'n ariannol tuag at y targed o £800. (e.e. £1 y mis am y 10 mis nesaf gan 80 o bobl a byddwn wedi cyrraedd y nod!) Dyma restr o'r rhai sy'n fodlon derbyn eich rhoddion: Gareth Williams, Bron Wenda; Menna Williams, Fferm Minffordd; Nan Humphreys, Pant y Bryngwyn; Meirwen Lloyd, Afallon; Megan Roberts, Gregynnog; Bethanne Williams, 2 Disgwylfa.

Plaid Cymru: Bydd cyfarfod nesaf cangen Llanrug a'r Cylch yng Nghanolfan Penisarwaun, nos Fercher, Chwefror 7, am 7.30 o'r gloch. Y siaradwr fydd y Cynghorydd Eurig Wyn, yn o gynrychiolwyr Cymru yn Ewrop. Mae croeso cynnes i bawb.

Dafydd Wigley, A.S., yw'r gŵr gwadd yn y Cinio Gŵyl Ddewi a gynhelir yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis, nos Fercher, Mawrth 6. Bydd adloniant gan Arfon Gwilym. Mae tocynnau ar gyfer y cinio ar gael gan yr ysgrifennydd, Olwen Llywelyn (650200).

Mae'r gangen yn anfon ei chofion at Mr Robert Jones, Egryn Villa, sydd yn yr ybty, ac yn dymuno iddo wellhad buan.

Merched y Wawr: Nos Fawrth, Ionawr 9, estynnwyd croeso cynnes i bawb gan y llywydd, Meirwen Lloyd. Dymunwyd blwyddyn newydd ddedwydd i bawb. Cydymdeimlwyd â Mrs Eileen Thomas ar golli ei brawd, Mr Iolen Hughes o Rhiwlas (Deiniolen gynt). Dymunwyd adferiad iechyd buan i Mrs Thomas sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

Gwestai'r mis oedd y Parchg Gwynfa Roberts gyda'i gasgliad o boteli. Y mae llawer ohonom yn gasglwr wrth reddf — cardiau post, bathodynau, stampiau, sebonnau, a photeli. Dechreuodd Mr Roberts gasglu poteli wedi iddo alw yng



Plant Ysgol Feithrin Llanrug a fu'n diddori trigolion Hafan Elan, eu rhieni a'u cyfeillion cyn y Nadolig.

nghartref ffrind iddo a gweld silffoedd yn llawn o boteli o bob llun a lliw. Roedd gŵr y tŷ hwnnw yn mynd i gloddio bob penwythnos ac ar wahoddiad aeth gydag ef — a dyna gychwyn ei gasgliad rhyfeddol o boteli. Difyr oedd gwrandio arno yn olrhain hanes y botel wydr o'r ail ganrif ar bymtheg pryd y'i chwythwyd gyda llaw. Y ddiod gyntaf i'w botelu oedd gwin. Roedd yn y casgliad boteli pridd a arferai ddal dŵr iachusol oddeutu 1790. Roedd ganddo boteli 'Cod 1875', sef poteli hefo marblen ar y top — ond rhai gwag oeddynt! Daeth un aelod a photel marblen gyda diod pop ynddi i'w dangos. Bu bron iddi a llewygu pan dynnodd Mr Roberts y teclyn a arferai wthio'r farblen i lawr, o'i boced. Roedd casgliad amrywiol o boteli brown tywyll ganddo, poteli inc, poteli babi a photeli glas gyda 'rib' arnynt er mwyn i'r deillion wybod mai poteli gwenwyn oeddynt. Diolchwyd i Mr Roberts am noson ddifyr dros ben gan Megan Roberts. Diolch Ann Lloyd i Jean, Mrs Whiteside Thomas ac Ann am wneud y te. Enillydd y raffl oedd Megan Roberts.

Nos Fawrth, Chwefror 13, y gwestai fydd Fiona Johnson gyda 'Cyffuriau ac Iechyd Merched'. Mawrth 12 dethlir Gŵyl Ddewi gyda bwffe yn y Bistro yn Llanberis.

Diolchiadau

Hoffai Arwyn a Berwyn Roberts, Clegir, Ffordd yr Orsaf, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu a'u ffrindiau am

y llu cardiau ac anrhegion a dderbyniasant ar achlysur eu pen-blwydd yn 21ain oed.

Dymuna Evan ac Eirwen Williams, Bryn Gro, ddiolch o galon i'w holl ffrindiau, cymdogion a pherthnasau am y llu cardiau, anrhegion a'r dymuniadau da a dderbyniwyd gan y ddau tra buont yn yr ysbytai ac ar ôl dod adref. Diolch yn arbennig am y gofal da a gawsant gan staff Ward Tudno, Ysbyty Llandudno a Ward Prysor ym Mangor.

Dymuna Alwena Williams, Cartref Melys, 1 Ffordd Glanffynnon, ddiolch o galon i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am y caredigrwydd mawr a gafodd tra yn dilyn ei llawdriniaeth yn Ysbyty Llandudno yn ddiweddar ac ar ôl dod adref. Diolch am yr holl gardiau, rhoddion, ymweliadau a'r galwadau ffôn, ac yn arbennig iawn i staff Ward Maes Du, Ysbyty Llandudno, a meddygon teulu a staff Meddygfa Waunfawr. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Mrs Mair Jones, 17 Glanmoelyn; Trevor a Noel, Bryn Tirion, Caernarfon, ddiolch yn fawr iawn i'w teulu, cymdogion a ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad drwy gardiau, ymweliadau a'r rhoddion er cof am Dilys, priod, mam, nain a merch-yng-nghyfraith annwyl iawn.

Dymuna Dilys a theulu'r diweddar Cecil Williams, 19 Hafan Elan, ddatgan eu diolch cywiraf am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth.

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr gan y bobl **BROFFESIYNOL** Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI** Y Gwasanaeth Technegol Gorau i'ch **CAR**. Cystal â Gwasanaeth Prif Ddeliwr Felly, pa gar bynnag ydych **CHWI** yn ei yrru, o Audi i Zastava



Car neu Fan Petrol neu Diesel Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth ni yn arbed £££ ichwi ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (0286) 673559



DRAENOG



Mae gen i gyfnither go bigog tua Sir Fôn, a chyfyrdur busneslyd i fyny yn Sgotland. Doedd gan y cwplw o barthau Pontrug fawr o siawns i gadw eu cyfrinach yn hir iawn felly! Fe glywodd fy nghyfnither amdanynt yn cael gwersi dawnsio tua Biwmares — yr hen ddawnsio crand 'ma wyddoch chi — fel 'tae nhw'n trio dal pensal rhag disgyn rhwng bochau eu tî. 'Deportment and

RADIO CYMRU

yn recordio

TALWRN Y BEIRDD

NEUADD YSGOL GYNRADD

LLANRUG

nos Fawrth, 20 Chwefror

am 7.15 o'r gloch

CROESO CYNNES I BAWB

DOWCH I GEFNOCI TÎM LLANRUG

balance' sy'n bwysig yn y math hwnnw o ddawnsio, medda nhw. Jest Cadw Balans oedd hi yn ôl y gŵr. Ac i be' roedd hyn i gyd yn dda, medda' chi? I jolihioitio tua Sgotland dros y Calan. Nefoedd wen, fuodd y 'Gay Gordon' byth 'run fath!


MARATHON SNWCER

Bu aelodau'r Clwb Snwcer yn cynnal Marathon Snwcer ychydig cyn y Nadolig i godi arian fel rhan o ymgyrch y pentref at y Ganolfan Newydd. Mae'n amlwg o'r lluniau i'r aelodau fwynhau'r profiad er fod un

neu ddau wedi gorfod cael rhyw nap fach bob hyn a hyn! Mae'n debyg bod eu hymdrech wedi codi bron i £200, fydd yn gyfraniad sylweddol i'r coffrau.



Meurig Parry, Aled Roberts, Martin Morris, Daniel Parry, Iwan Williams, Steven Thomas, Iwan Griffith a Mark Owen.



Rhai o aelodau'r Clwb yn cael 'break' bach yn ystod y Marathon.

CYNGOR CYMUNED LLANRUG

Mae'n fwriad gan Gyngor Cymuned Llanrug i gyhoeddi cyfarwyddiadur o fusnesau'r fro. Bydd y cyfarwyddiadur yn cael ei ddosbarthu yn rhad ac am ddim i holl gartrefi'r ardal. Ymgais yw hon i greu ymwybyddiaeth o'r holl wahanol wasanaethau sydd ar gael o fewn y gymuned.

Os dymunwch i'ch busnes gael ei gynnwys yn y cyfarwyddiadur, byddwch cystal â llenwi'r ffurflen isod a'i dychwelyd i Gwyndaf Jones, Clerc y Cyngor, 60 Glanffynnon, Llanrug, Caernarfon, erbyn Mawrth 1af 1996.

Enw'r busnes:
Cyfeiriad:
Rhif Ffôn: Ffacs:
Math o fusnes:
Oriau:
Gwasanaeth a gynigir:
Unrhyw wybodaeth ychwanegol:

CYFARWYDDIADUR LLEOL

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: 872407

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Eisteddfod Bentref: Cynhelir yr Eisteddfod eleni nos Wener, 9 Chwefror, am 6 o'r gloch yn y Neuadd Gymuned. Pob dymuniad da i'r cystadleuwyr a'r hyfforddwyr.

Urdd Bentref: Canolbwyntir ar yr amrywiol gystadlaethau llwyfan a celf a chrefft bob nos Fawrth o hyn hyd yr Eisteddfod Gylch sydd i'w chynnal ar 2 Mawrth. Diolchir i'r rhai sy'n hyffordd ac annog y plant. Dymunir pob llwyddiant i'r aelodau.

Gwellhad: Anfonir cofion annwyl ac adferiad iechyd buan i Mrs Eileen Thomas, Bron y Gaer, a Mrs Myfanwy Parry, Tawelfa, wedi'u triniaethau yn Ysbyty Gwynedd. Dymunir gwellhad buan i bawb sy'n wael yn y pentref.

Profedigaeth: Cydymdeimlir yn ddwys iawn â Mrs Eileen Thomas o golli brawd addfwyn, Mr William Iolen Hughes, ac ewythr i Mr Gwynfor Roberts, Tai Croesion. Ein cydymdeimlad llwyrfa â'r teulu oll.

Pwyllgor y Neuadd: Dymunir eich hatgoffa yn garedig ei bod yn amser adnewyddu aelodaeth y Clwb Cant am £6 y flwyddyn neu 50c y mis. Buasem yn hynod falch o groesawu aelodau newydd i hyrwyddo'r baich o godi arian i gynnal y Neuadd. Diolchir yn ddiffuant i'r aelodau ffyddlon am bob cefnogaeth yn ystod 1995.

Diolchir i Phyllis am gymryd gofal o'r catalogau 'Webb Ivory' gan sicrhau elw sylweddol. Diolchir i'r criw bychan o garolwyr am eu casgliad haeddiannol hwy a llawer o ddiolch i'r rhai a'u croesawodd i'w haelwydydd, a hynny ar noson mor finig oer. Siomedig ar y cyfan fu gwerthiant y tocynnau raffl ond diolchir i'r rhai fu'n gwerthu ac yn prynu. Yr enillwyr oedd: 1, Fred Corona, Deiniolen; 2, Siôn Llywelyn, Bryn Eglwys; 3, Elinor Williams Bryn Rhydd. Enillwyr Clwb Cant mis Rhagfyr oedd: 1, Gwen Griffith, 6 Tai Arthur; 2, Selwyn Griffith, 6 Bryn Eglwys; 3, S. Griffith, 16 Bryntirion. Gobeithir cynnal amrywiol weithgareddau eto eleni a gobeithiwn y cawn eich cefnogaeth. **Ysgol Feithrin:** Y mae'r 16 o aelodau ifanc wrthi'n brys iawn yn paratoi ar gyfer yr Eisteddfod Bentref a'r Cyngerdd Gŵyl Ddewi. Byddant yn ymuno â phlant yr Ysgol Gymuned ar 1 Mawrth. Maent eisoes wedi

dysgu hwiangerddi a gwneud 'collage'.

Ysgol Gymuned: Uchafbwynt Nadolig plant yr Ysgol Gymuned mae'n siŵr oedd gweld rhai o'u ffrindiau yn ymddangos ar raglen Nadolig Bryn Terfel ar noswyl Nadolig. Efallai y cofiwch mai peth amser cyn y Nadolig yr oedd y parti bach i fod i fynd i Gaerdydd i recordio 'Tinsel ar y Goeden' gyda Bryn Terfel ond yn anffodus bu'n rhaid gohirio'r daith gan fod Bryn yn dioddef o effaith annwyl. Roedd y plant, yr athrawon a'r rhieni yn siomedig iawn pan ohiriwyd y daith ond cafwyd gwahoddiad arall i deithio i Gaerdydd i recordio a phawb wedyn yn teimlo'n well. Fore Sadwrn cyn y Nadolig aeth y parti draw am Gaerdydd o dan ofal Mrs Ann Thomas gan ddychwelyd yr un noson. Diolch i'r plant am gynrychioli'r ysgol mor arbennig o dda; i Mrs Thomas am eu paratoi; i'r rhieni am eu cefnogaeth.

Ar ddechrau tymor newydd pleser yw estyn croeso cynnes i'n plith i Miss Sioned Hughes sy'n dilyn cwrs gweinyddes feithrin ym Mangor. Lleolir Miss Hughes yn nosbarth plant blwyddyn 0 ac 1. Gobeithio y byddwch yn mwynhau eich tymor ym Mhenisarwaun.

TAN Y COED

Annwen Parry, Ael y Bryn
Ffôn: 872276

Llongyfarchiadau i Dr Amlyn Llwyd Evans, ar ennill gradd Bachelor of Surgery yng Ngholeg Churchill, Caergrawnt.

Llongyfarchiadau i Siwan Humphries, Pant Bryngwyn, ar basio ei phrawf gyrru ar yr ymgais cyntaf. Hwyl Siwan ar y dreifio.

Dymunwn wellhad buan i Mr Emyr Tomos, Tan-y-cae, sydd wedi bod yn yr ysbyty yn ddiweddar.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

Made to Measure



Llenni, Gorchuddion Llac
Ffril wedi'i blethu
(bocs)

a Chlustogau
gyda zip
Amcanbris
am ddim

BANGOR

(01248) 364493
unrhyw adeg

AMDDIFAD YN LIMBO

Rhagor o atgofion Miss O. M. Davies, Bangor am ei phlentyndod yn Llanberis.

Fe hoffwn ddysgu 'chemistry' yn y lab gyda Mr Glyn Jones, gwneud crisialau copper sulphate, dysgu mai H₂SO₄ yw sulphuric acid, a synhwyro ogle wyau drwg ar hydrogen sulphide, ond nid oedd yn bosib gwneud y gwaith cartref heb werslyfr. Mr Jones yn dangos ei siom am nad oeddwn wedi cael marciau da, a minnau yn gorfod cyfaddef nad oedd gennyf lyfr. Dywedodd wrthyf am alw yn ei dŷ lojin yng nghanol y pentref ac y cawn fenthyg y llyfr ganddo. Oddi allan i'r ysgol paratown at y Steddfod. Enillwn ar y canu a'r adrodd ac fe genwn mewn parti. Yn y Church House eisteddem arholiad ysgrythurol, cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg, a byddwn yn ennill bob tro. Perthynwn i barti acol a mawr

oedd yr hwyl yn cael ein dysgu gan Jenat Ifans yn ei thŷ bychan oedd tu ôl i'n rhes ni. Hi hefyd a ddysgodd imi chwarae'r ffidil, ac ni chodai ddimai am ein dysgu. Cafodd Bel, fy ffrind, feiolin newydd sbon ond hen un, a berthynai i wr cyntaf Anti, oedd gennyf i gyda chês pren smart â phlat pres ar ei wyneb er nad oedd lle i gario'r bwa ynddo.

Byddai yna eisteddfod yn yr ysgol hefyd. Enillais ar adrodd deuddeg o englynion; ac ar 'Ymadawiad Arthur', 'Friends, Romans and Countrymen', 'All the World's a Stage' a 'The Listeners'. Yna daeth y 'dydd o brysus bwyso' pan oedd yn rhaid eistedd arholiad y 'Senior' a minnau ofn methu'r arithmetic a hynny yn boen parhaol imi. Os oeddech yn methu un o'r pynciau angenrheidiol byddech yn methu'r tystysgrif. Roedd Evelyn wedi pasio pedwar pwnc ond wedi methu arithmetic ac felly yn cael dim. Fe

adawodd yr ysgol i fyd at fy modryb i Gorwen i ddysgu gwneud llyfrau'r siop gan ei bod wedi pasio 'book-keeping'.

Roedd iechyd Anti wedi gwaethgu ers amser bellach. Awn i'r syrjeri i ben pella'r pentre i nôl ffisig iddi, gan eistedd yng nghanol y cleifion i aros fy nhro. Eisteddai'r dispenser yn ei ystafell ei hun gan estyn y poteleidiau o hylif coch a'r blychau bychain gwynion. Yn nes ymlaen gobeithiwn gael mynd ato i ddysgu bod yn dispenser ond erbyn yr amser ddod roedd o wedi mynd yn hen a'r swydd wedi darfod. Cofiaf weld Anti yn crio am nad oedd ganddi ddigon o arian gan ddweud y byddai'n rhaid iddi fynd at y 'liffin offisar' — y dyn fyddai'n talu arian plwy i'r rhai a dybid eu bod yn ei haeddu. Ym mharlwr Siop yr Efail y byddai'r swyddog yn eistedd i holi pawb a ddeuai i'w weld. Fe aeth Anti a chafodd lwfans o bum swllt yr wythnos. Roedd y gwarth a'r pryder i'w weld ar ei hwyneb. Roedd fy mrawd wedi dechrau cario allan i'r cigydd bob dydd Sadwrn ac roedd y beic a'r fased yn llawer rhy drwm iddo. Enillai swllt am y gwaith. Cefais innau swydd yn ystod y gwyliau yn glanhau'r closeti — y cyfleusterau — yn nhai bach y merched yn stesion y Wyddfa, ac mae arogli 'Jeyes Fluid' yn mynd â mi yn ôl i'r adeg hynny yn ddiffaell! Rwy'n cofio mynd i'r Efail unwaith i nôl y pumswllt. Edrychodd y dyn arnaf a dywedodd y byddwn yn gadael yr ysgol yn fuan ac yn mynd allan i ennill. Cafodd Anti lojar arall ymhen amser ac fe aeth at y Relieving Officer i stopio'r lwfans.

Pan ddeuai tymor yr haf cawn chwarae tennis yn y cwtiau oedd yn y gerddi o flaen y Ring. Roedd Mrs Fisher wedi rhoi raquet hen ffasiwn i mi, a thalem chwe cheiniog y tro. Yna cefais swydd yn y gwyliau i fynd i ben yr Wyddfa i gadw siop cardiau a phethau-da yn un o'r hen gabanau pren oedd ar y copa. Gwerthwn stampiau post hefyd a rhoddwyd marc post 'Snowdon Summit' arno i'w roi yn ymyl y stamp. Awn i fyny ar y trên cyntaf ac arhoswn yno tan y trên olaf gan gario'r arian a'r cardiau i'w rhoi i'r rheolwr yn y stesion. Fy nghyflog oedd ychydig llai na chweugain. Unwaith fe fethais

a chlywed sŵn y trên olaf yn cyrraedd yr orsaf — a oedd tipyn is na'r copa — a bu'n rhaid imi gerdded i lawr yr holl ffordd. Diolchais nad oedd yn dywydd garw o fellt a tharanau fel y cafodd fy chwaer a minnau unwaith yng nghanol haf pan aethom i fyny ar ein sgawt. Tywyllodd yr awyr a dymchwelodd y glaw, fflachiodd y mell o'n cwmipas ac roedd sŵn y taranau'n diasbedain o Gwm Du'r Arddu fel petai Dydd y Farn ar ein gwarthaf. Cofiaf imi ddechrau rhedeg yn wyllt i lawr y llwybr oedd erbyn hynny fel afon a'm chwaer, nad oedd yn fawr hŷn na mi, yn ceisio fy nhawelu. Nid oedd Anti yn medru diodde storm chwaith. Byddai'n rhaid i ni fynd i guddio yn y twll-dan-grisiau gan edifarhau am ein drygioni gan fod Duw yn flin — 'R Hwn sy'n gyrru'r mell i hedeg', meddai Anti.

Byddem yn cael mynd i aros i Fangor ar chwaer fy nhad a'i gŵr oedd yn bostmon. Tŷ bychan mewn rhes yng nghanol y dre oedd eu cartref a hwnnw fel plasty bach o'i gymharu a'n tŷ ni gan i hwnnw fod wedi dirywio a mynd yn llwm. Roedd popeth fel pin mewn papur ym Mangor. Byddai bysiau Bangor Blue yn mynd drwy Glwt-y-bont ac i lawr Nant-y-garth i ganol Bangor. Pan oeddwn yn llai byddai Taid Bangor yn mynd a mi i'r pictiwr yn y City yn y pnawn. Roedd y llun yn ddu a gwyn ac yn ddi-sŵn. Cofiaf weld y ffilm 'The Rat' pan stwffiodd y dyn drwg gyllell i groen dyn arall nes roedd marblen o waed yn graddol ddod allan. Pan edrychais ar Taid sylwais ei fod yn cysgu'n sownd. Anti Leah wedyn yn gofyn sut un oedd y pictiwr a Taid yn canmol i'r cymylau. Bu ef farw yn 1930 ond ni chawsom fynd i'w gynhebrwng.

DEINIOLEN

W. O. Williams, 6 Rhydfadog. Ffôn: 871259

Ebeneser a Chefnywaun: Cynhaliwyd gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul fore Sul, Rhagfyr 24. Roedd holl blant yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn yr oedfa a diolchwn i'r athrawon am eu gwaith trylwyr yn paratoi'r gwasanaeth.

Y Cyngor Eglwysig: Yn Libanus y cynhaliwyd oedfa'r flwyddyn newydd nos Lun, Ionawr 8. Roedd yr oedfa yng ngofal gweinidog Libanus, Y Parchg Olaf Davies. Daeth cynulleidfada ynghyd ar noson oer. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Ebeneser am 7 o'r gloch nos Lun, Chwefror 12, ac edrychwn ymlaen at groesawu'r Parchg Glyndwr Williams y noson honno.

Y Gymdeithas Lenyddol: Cynhaliwyd y Gymdeithas yn Y Caban, nos Lun, Ionawr 22, dan lywyddiaeth Mrs Margaret Griffith, Cynfi. Croesawyd Mr Terry Carpenter, Talybont, Dyffryn Conwy, i'r cyfarfod, a chyflwynodd ef gyfresi o sleidiau diddorol yn dangos golygfeydd amrywiol o Ddyffryn Conwy, Iwerddon ac Awstria yn ogystal â lluniau ar thema'r gaeaf a'r gwanwyn, a hyd yn oed luniau o barti'r tedi bêrs! Roedd pob cyfres o luniau wedi eu cydio wrth gerddoriaeth briodol, a'r cyfanwaith yn gyflwyniad hynod fywiog a newydd. Cynigiwyd y diolchiadau gan Mr Hugh Jones. Cynhelir y cyfarfod nesaf yn Y Caban, am 7 o'r gloch, nos Lun, Chwefror 26.

Y Seindorf: Enillwyd y Clwb 200 am fis Rhagfyr — £25: Carol Jones; £15: G. O. Jones; £10: W. O. Williams.

Enillwyd Tarian Teyrnged Mr a Mrs O. H. Jones, 1 Pentre Helen, eleni gan Arwel Williams. Cyflwynir y Darian yn flynyddol i chwaraewr mwyaf addawol y flwyddyn.

Cynhelir y Pwyllgor Cyffredinol nos Sul, Chwefror 11eg, am 7 o'r gloch, yn yr Ystafell Ymarfer. Croeso cynnes i bawb.

Diolchiadau


Dymuna Mrs Elisabeth Griffith, 15 Ffordd Deiniol, ddiolch o galon i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau a'r blodau a dderbyniodd

tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

Dymuna John Morris a theulu y ddiweddar Elizabeth Morris, Rhiwen, Deiniolen, ddatgan eu gwerthfawrogiad i'w perthnasau a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad o golli gwraig, mam a nain annwyl iawn. Diolch am y llu o gardiau, llythyrau, galwadau ffôn a'r rhoddion. Diolch yn fawr.



Arwel Williams.



DRAENOG

Ydi tywydd oer y gaeaf yma yn peri pryder i chi? Oes gynnich chi ofn i'r car rewi dros nos? Os cewch drafferth, mae'r **Draenog** yn gwybod am gyfaill o Lanberis a all eich helpu. Mae ganddo ddigon o "Ianto-Freeze" ar werth yn ôl pob sôn.

PRIODAS HEB FFRILS

gan Robert Williams, Llain Gwta, Llanrug

Erthygl fuddugol Eisteddfod Bentref Llanrug yng nghystadleuaeth llunio erthygl addas i'w chyhoeddi yn *Eco'r Wyddfa*.

Ar ddydd Sul cofiwch! Nid ydym yn gyfarwydd â hynny yn y Fro. Wel, nag ydym wrth gwrs. O ran hynny mae nhw wedi mynd i wneud pob math o betha' fyddai yn tabw cyn dyfod trefn y Toris.

Priodas yng Nhŷ Cwrdd y Crynwyr oedd hi; a faint ohonom sy'n 'nabod aelod o'r gymdeithas honno? Fel 'Seiat ar ôl' gwasanaeth y bore, yn Stryd y Deon, ym Mangor, ger yr Octagon bondigrybwyll, oedd y briodas; yn unol â defod Cymdeithas Grefyddol y Cyfeillion, fel y'i hadwaenir.

Ar fore hyfryd yn nechrau Gorffennaf eleni, gwahoddwyd ni i briodas brodor o fro'r *Eco* (Fe'i galwn yn Huw Jôs) â Jana, merch o Fwlgaria, y ddau yn byw yn yr Almaen. Croesawyd ni i'r Tŷ Cwrdd gan wraig fonheddig, ddymunol a rhoddodd bamffled inni *Gweinyddu Priodasau'r Crynwyr (A Quaker Wedding)*. Roedd y ddefod am chwarter wedi hanner dydd. Gofynnwyd inni eistedd mewn cadeiriau unigol a drefnwyd yn un cylch mawr hirgrwn. Ym mhen uchaf y cylch roedd bwrdd hir dan liain lliw hufen laes yn cwmpasu traed y bwrdd. Arno roedd dysgl arian â deg o bytiau kannwyll yn olau. Mewn cawg blodeuog ei addurn roedd swp o wyddfid o'r perthi a chofrestr priodas yn agored a rwymwyd â rhuban gwyrdd trwy'i ganol. Ar fwrdd llai, yn nes at ganol y cylch, roedd copi o'r Beibl Cymraeg Newydd, Beibl Saesneg a llyfr trwchus o Ysgrifau William Penn, oedd gyda George Fox yn brif symudydd y mudiad, dair canrif yn ôl (ef sefydlodd Pennsylvania UDA). O dan y bwrdd llechai cawg o rosynnau gwyllt o'r gwrychoedd. Deallaf mai chwaeth y briodferch a barodd i'r addurniadau hyn ar fyrdau llwm y tŷ.

Awyrgylch lom iawn oedd i'r

ystafell wyngalchog gyda'i thrawstiau tywyll, heb unrhyw arwydd crefyddol o gwbl, nag offeryn nag offeiriad, na phulpud na phlât casgliad yn amlwg. Roedd yno rai aelodau yn henuriaid anamlwg a arolygai y gweithrediadau. Trawiadol iawn oedd y dwys ddistawrwydd.

Eisteddai'r priodfab a'r briodferch tu ôl i'r canhwylau wrth y bwrdd mawr hir, tra eisteddai pawb mewn tawelwch mud. Parhaodd yr egwyl dawl am rhyw ddeng munud, heb ebwch na pheswch gan neb. Mae un munud yn dreth garw ar aml un — ond DENG munud cofiwch! Ni oedd yn anghyfeffn â'r defnydd a wneir o egwyl i fyfyrddod a gweddi gan y Cyfeillion.

Yna, cododd y priodfab a darllen yn Gymraeg gyflwyniad o'i eiddo yn datgan ei achau yn y fro hon. Ailadroddodd hynny yn Saesneg.

Cododd y briodferch a'i chyflwyno ei hun yn y Fwlgareg a'r Saesneg hefyd. Safai'r pâr priodasol law yn llaw gan wneud datganiad dilys o briodas.

Meddai'r priodfab, 'Gyfeillion, cymeraf hon, fy nghyfeilles, yn briod imi, gan addo trwy gymorth dwyfol, bod iddi yn ŵr cariadus a ffyddlon tra byddwn ein dau fyw ar y ddaear.'

Yna, gwnaeth y briodferch ei datganiad hithau yn yr un modd. Yn y sefyllfa yma gwnaed y cyfan yn Saesneg fel iaith gymrodded.

Arwyddwyd y dystysgrif gan y ddau briod a dau brif dyst (ffrindiau o'r Almaen) ac yna gwahoddwyd pawb oedd yn bresennol i arwyddo'r ddogfen fel tystion.

Darllenwyd y dystysgrif ar goedd gan Gofrestrydd lleol y Crynwyr o Ddolgellau. 'Does dim lle ffurfiol i'r fodrwy yn nhrefn y Crynwyr ond gall y parau gyfnewid modrwyau pe

dymunent. Gesyd y priodfab fodrwy ar y trydydd bys o'r llaw dde iddi a hithau ar yr un bys o'r llaw chwith iddo yntau.

Âr cwrdd ymlaen, fel y dechreuodd, gyda chyfnod o dawelwch eto, ond cododd gŵr o'r gynulleidfa gan ddarllen o Ysgrifau William Penn ar natur priodas ymysg y Cyfeillion. Manteisiodd un neu ddar ar y cyfle i wneud rhyw sylw perthnasol i'r achlysur.

Pan ysgydwodd ddwy o'r henuriaid ddwylo dyna arwydd fod y cyfarfod ar ben, gan annog pawb i ysgwyd llaw â'i gilydd o amgylch nes cyrraedd y pâr priod.

Holi fydd pawb fel arfer beth oedd y briodferch yn wisgo, gan ddisgwyl rhyw greadigaeth syfrdanol, ond safai yn bennoeth mewn gwisg syml o satin plaen gyda rhyw sribedi disglair trwyddi heb unrhyw ffrils. Gwisgai yntau siwt o frethyn melynwyn gyda gwasgod o'r un lliw, crys glas a thei lliw hufen â sribedi glas arno, esgidiau o swêd glas a bwff.

Anffurfiol oedd yr holl weithgareddau yn y dathlu a ddilynodd mewn gwesty nid anenwog ym mro'r *Eco*. Treuliodd cyfnod yn y gerddi a'r

lawntiau i sain y delyn dan law Nia o'r Dolydd a thynnu lluniau, hollol ar hap, o bawb yn sgwrsio yn dalog.

Roedd y cwmni wrth y byrdau yn llawen a hwyliog a chlywid seiniau pedair iaith o bryd i'w gilydd. Gan fod y priodfab yn Gymro hyddysg mewn tair iaith, gweithredodd ef, yn llawn afiaith, fel Meistr y Ddefod. Llefarai yn ei famiaith, yna yn y 'fain' gan fynegi ei hun yn rhugl yn yr Almaeneg, er mawr ddifyrrwch i bawb, yn enwedig y *mein mutter* pan gyfeiriai at ei fam.

Roedd llu o ffrindiau iddo wedi dod i'w ganlyn i'r briodas o bentref Homberg ac wedi gwirioni ar eu llety ar lan Llyn Cwellyn. Roedd yno ffrind o Fwlgares yn trigo tua glannau Conwy a ganodd ddeuawd swynol gyda'r briodferch yn eu hiaith frodorol, yn ateb i ymgais y priodfab a'i gymar yn canu 'Sosban Fach'.

Gresyn na allai teulu'r briodferch yn Sofia, Bwlgaria, fod yno gyda'r cwmni, ond gan fod chwyddiant ariannol mor uchel yno, o dan y drefn newydd, fe gostiai gyflog blwyddyn iddynt i deithio yma. Fodd bynnag deallaf eu bod yn cynnal gwledd yno yr un pryd i ddathlu'r achlysur er yn absennol. Anfonwyd hanner o'r deisen briodas ymlaen yno i gydio y ddau ddathliad.

Gwesty Dolbadarn LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff.


OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU
- TRWSIO
★ Teledu
★ Fideo

★ Offer Trydan
Gwasanaeth
Ffôn 24 awr
LLANBERIS 870545

GWYN JONES FFENESTRI ERYRI GARTH ISAF, LLANRUG (01286) 650764

★ Ffenestri ★ Drysau ★ Drysau Patio
★ Porches ★ Byrddau Ffasia



★ Cladio
★ Conserfateris

12 MLYNEDD O
BROFIAD YN Y MAES

Siop Trin Gwallt SANDRA Stryd Fawr DEINIOLEN Ffôn: 872112

- Ar agor bob diwrnod o'r wythnos
- Prisiau arbennig i bensynwyr

Gair gan Delyth

Annwyl gyfeillion,

Roeddwn yn meddwl ei bod yn hen bryd imi roi gair ar bapur ac adrodd rhai o ddigwyddiadau a all fod o ddiddordeb i chi ddarllenwyr adref yng Nghymru fach, ac mi ddechreuaf drwy sôn am fy amser yng Nghanada yn ystod gwyliau'r haf.

Hedfan o Brunei i Narrita yn Japan ac aros yno am ddiwrnod. Doedd yr arhosiad yno yn Japan ddim yn fwiadol ond rhaid oedd gwneud hyn oherwydd cymhlethdodau amrywiol. Tae waeth, mi fedra i ddweud rwan fod gen i stamp 'Japan' yn fy passport — a dyna'r unig beth sydd gen i fel swfeniar o'r wlad gan mor ddrud oedd popeth yno. Dyma'r wlad ddrutaf i mi roi 'nhraed arni — er enghraifft, roedd yn rhaid bwyta, felly dyma fynd draw i Macdonalds gan feddwl mai rhesymol o ran pris fyddai cael prydyn yno. Ond, deuddeg punt am Big Mac, paned o de a phaced bach o sglods!! Roeddwn i'n fwy na pharod i adael y wlad gan edrych ymlaen at gyrraedd Canada — siwrnai a gymerodd 24 awr, o ddrws i ddrws.

Cyrraedd maes awyr Vancouver ond dim amser i weld y ddinas gan fod rhaid dal awyren arall am Calgary.

Roedd y 'Calgary Stampede' ymlaen ac felly dyma fynd yn syth i ymuno efo'r cowboys a'r Indians gan fwynhau y rodeo a'r amryw weithgareddau eraill oedd yn cymryd lle.

Mae'r 'Calgary Stampede' yn achlysur blynyddol a ddechreuodd tua wythdeg o flynyddoedd yn ôl. Yn y dyddiau cynnar dim ond cystadlaethau rhwng ffermydd (neu ranches) cyfagos a'u gilydd oedd yn digwydd ond erbyn hyn ceir amryw o gystadlaethau — fel eistedd ar darw gwyllt, godro gwartheg gwyllt, rasmus wagen, i enwi ond cyfran fechan iawn o'r digwyddiadau.

Cyn gadael Calgary rhaid oedd mynd i weld gêm bêl-droed

Americanaidd (rygbi i chi a mi ond bod rhaid i'r dynion yma wisgo padiau rhag ofn iddyn nhw frifo, ia!) Wel sôn am ffys a ffwdan. Roeddwn i yn meddwl mai mynd i weld gêm yn unig yr oeddwn i, ond o na, roedd yna ddynes ar gefn cefyl yn rhedeg o amgylch y cae bob tro roedd y tîm cartref yn sgorio gan daflu peli i'r miloedd o bobl oedd yn y stadiwm — na, chefais i yr un bêl! Yn ôl y trigolion mae'n rhaid cael y 'cheer-leaders' ym mhob gêm ac roedd yn amlwg fod gan y rhan helaethaf o'r gynulleidfa fwy o ddiddordeb yn y genod hynny nag yn y gêm ei hun! Yn ystod yr egwyl roedd yna sioe i ddiddori'r dorf ac yna, i goroni'r cwbl, ar ddiwedd y gêm dyma ddechrau ar sioe tân gwyllt a barhaodd am ugain munud o leia! Dydw i 'rioed wedi gweld cynifer o bobl mewn unlle o'r blaen — oedd, roedd hi'n waeth o lawer na phan fydd Lloegr yn chwarae yn erbyn Cymru ar Barc yr Arfau!

Wedi wythnos yn Calgary dyma ddechrau teithio o gwmpas y lle ond, mam bach, mae'r lle yn anferth!! Roedd gen i ddeg diwrnod ar ôl ac roeddwn i awydd gweld cymaint o Alberta â phosib — ond mae Alberta yn fil o filltiroedd o hyd a chwe chan milltir o led! Dyma benderfynu mynd i Drumheller gan ymweld â'r amgueddfa deinasiariaid enwog yno, sef Amgueddfa Tyrol. Maent wedi darganfod mwy o deinasiariaid yno nac yn unwan arall yn y byd ac roedd yn brofiad addysgol go-iawn cael mynd o amgylch yr amgueddfa yma.

Teithio ymlaen wedyn i Edmonton gan ymweld a'r ganolfan siopa dan-do fwyaf y byd. Mam bach! Roedd y lle yn anferth (70 acer!). Bûm yn siopa yno am ddau ddiwrnod gan aros mewn gwesty o fewn y ganolfan siopa! Welais i ddim chwarter y siopau yno (mae yno tua naw cant) ond fe wnës yn saff fy mod i'n cael digon o amser i fynd i

sglefrio rhew, nofio, a mynd i'r ffair tra roeddwn yno.

Cychwyn wedyn am Barc Cenedlaethol Jasper a mwynhau'r daith odidog drwy'r parc anferth. Gwelais gynifer o geirw ac amrywiol anifeiliaid gwyllt eraill — ond yn ffodus welais i 'run arth! Wrth gerdded drwy'r coedwigoedd roedd yn rhaid imi wisgo cloch o gwmpas fy ngwddf! Roeddwn i'n teimlo fel gafr fynydd, ond yn ôl y wardeiniaid mae hyn yn cadw'r eirth i ffwrdd — a phwy oeddwn i ddadla hefo nhw!

Roedd tref Jasper yn union fel llun a welwch ar focs siocled neu gerdyn post ac yn ystod misoedd y gaeaf mae'r dref yn llawn o sgiwyr proffesiynol gan mai dyma'r ail le mwyaf poblogaidd i sgio drwy Ganada gyfan.

Ymlaen wedyn am Barc Cenedlaethol Banff sy'n enwog am y bywyd gwllt a'r golygfeydd godidog ac, wrth gwrs, sgio. Dyma'r dewis cyntaf i sgiwyr o bob rhan o'r byd ond mae'n rhaid i mi gyfaddef os byddain rhaid imi ddewis rhwng tref Jasper a thref Banff mai Jasper fyddai fy newis i. Un rheswm dros hyn yw oherwydd fod pob dim mor ddrud yn Banff!

Teithio ymlaen wedyn i dref Canmore ac aros yno am dridiau efo teulu fy nghyd-deithiwr. Roeddwn wrth fy modd yn clywed am hanesion eirth yn ymweld â'r gerddi yn y tai cyfagos yn ystod misoedd yr haf, yn enwedig os na fyddai'r dynion wedi bod o gwmpas i gasglu'r sbwriel. Roeddem yn cael barbeciw allan yn yr ardd bob nos a sôn am fwyta — dydw i rioed wedi bwyta cymaint o stêcs yn fy mywyd ond, O! am flasus!

Wel dyna, yn fraw iawn, fy hanes yng Nghanada. Ond beth am Brunei? Mae hi wedi bod yn gythreulig o boeth yma ers mis Medi ond o'r diwedd mae'r tywydd wedi troi. Mae hi wedi bod yn bwrw han wragedd a ffyn yma ers pedwar diwrnod ond, yn ôl y trigolion lleol, dydi hi heb fwrw fel hyn yma ers ugain mlynedd neu fwy! Mae hi fel Môr y Canoldir yma, wir i chi! Rydw i (a phawb arall) yn gorfod

tynnu fy 'sgidiau a chodi fy sgerts at fy mhen-glin pan yn gadael y tŷ. Yr hyn sy'n beryg ydi pan bo hi wedi tywyllu a ch'itha yn dod yn ôl adra o rhywle ac yn padlo drwy'r dŵr yn yr ardd mae'r nadroedd yn nofio drwy'r pyllau gan eu bod yn ceisio dal y llyffantod sydd wedi ymddangos yma mwya' sydyn. Lle ar y naw, yntê. Braf oedd cyrraedd yr ysgol fore Iau a chlywed y newyddion da o lawenydd mawr fod yr ysgol ar gau am y dydd oherwydd y llifogydd. HWRE! meddai'r athrawon. Ond, o na! roedd yn rhaid i NI aros yno drwy'r dydd a gellwch feddwl beth oedd ymateb pawb!!

Mae'r môr mor ffyrnig fel bo'r rigs olew yn siglo ac mae'r rhan fwyaf o'r rhai sy'n gweithio arynt yn sâl môr ac yn methu cael hofrenyddion i lanio ar y rigs oherwydd y gwyntoedd a ffyrnigrwydd y môr.

'Dwi'n gobeithio mynd i Perth yn Awstralia dros wyliau'r Nadolig felly fe 'sgwenna i am fy hanesion yno ymehn rhyw ddau fis.

Mae'n siŵr y bydd y 'Dolig wedi hen fynd heibio cyn i'r llythyr hwn gyrraedd acw, ond mi rydw i'n wir ddymuno blwyddyn newydd dda i bob un ohonoch.

Cefnogwch ein
Hysbysebwy

**IEUAN
WILLIAMS**

**Glanffrwd
DEINIOLEN
Llanberis 870484**

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

Emyr Jones

**PLYMAR A PHEIRIANNYDD
GWRESOGI**


Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

**44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 673513**



Am eich
**ANGHENION
ADEILADU**
mawr a bach
**MASNACHWYR
A "D.I.Y."**
am
**BRISIAU
CYSTADLEUOL**
dewch at

BRYN
(B & K Williams)



**Yr Hen Ysgol
Glanmoelyn
LLANRUG
Ffôn: 677482**

**GERAINT
OWEN**

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

**Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR
Ffôn: Waunfawr
650552**

CWM-Y-GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: 872275

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Cydymdeimlo: Estynnwn ein cydymdeimlad i Mrs Peggy Rowlands, Talafon, yn ei phrofedigaeth o golli ei brawd. Cydymdeimlwn hefyd â theulu y diweddar Mr D. Roberts, Y Ddôl.

Yn yr Ysbyty: Dymunwn adferiad buan i Mrs Eluned Hughes, Hyfrydle, a fu am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd ond sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Eryri, Caernarfon.

Gwellhad Buan: Treuliodd Siân, 2 Bryn Gro, rai dyddiau yn ystod y Nadolig yn Ysbyty Gwynedd ond da yw deall ei bod wedi gwella erbyn hyn. Anfonwn ein cofion gan ddymuno gwellhad llwyr a buan i bawb sydd heb fod yn dda yn ddiweddar.

Cyngerdd: Cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus gan Hogia'r Wyddfa gyda Mrs Annette Bryn Parry yn cyfeilio, a chyda rhai o blant yr Ysgol Gynradd, wedi eu hyfforddi gan eu prifathrawes Mrs Mair Hughes, yn cymryd rhan. Cafwyd noson ardderchog a phawb wedi mwynhau eu hunain. Diolch yn arbennig i Mr Gwynedd Owen a Mr Dafydd Roberts am drefnu'r noson, ac i Mr Brian Jones am argraffu'r posteri a'r tocynnau. Dymuna'r Rheithor, y Parchg Philip Hughes, ddiolch yn fawr iawn i bawb am y rhoddion o arian a rafflau y noson. Diolchir hefyd i'r merched am ofalu am y lluniaeth. Gwnaed elw sylweddol iawn o £400 at Eglwys Sant Gabriel. Diolch yn fawr i bawb. Enillwyd y raffl oedd — 1, Mrs Roberts, Penisarwaun; 2, Sonia Morris, Brynrefail; 3, Mr W. R. Jones, Cwm-y-glo; 4, Miss Jones, Penisarwaun; 5, Mrs Rhianon Jones, Llanberis; 6, Mrs Mair Jones, Hafan Elan, Llanrug; 7, Mrs Elizabeth Jones, Penisarwaun; 8, Clare Prichard, Brynrefail.

Undeb y Mamau: Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r flwyddyn newydd yn yr Ysgol Gymuned. Oherwydd y tywydd stormus roedd nifer o'r aelodau yn absennol. Dechreuwyd gyda gwasanaeth byr ac anfonwyd ein cydymdeimlad i Mrs E. Jones, Lyndale, Llanrug, yn ei phrofedigaeth sydyn o golli ei mab. Cafwyd adroddiad gan Mrs Latham am y ddau gyfarfod a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr. Rhannwyd elw raffl y Nadolig rhwng cronfeydd Steffan a

Keith. Mrs Pat Castle, Moelfre, oedd y wraig wadd a chafwyd noson ddiddorol yn gwrandao ar dapiau wedi eu trefnu ar gyfer gweddïau tros blant bach, a'r cleifion. Diolchwyd i Mrs Castle gan Mrs Gwyneth Roberts. Mrs Kath Jones a Mrs J. Side oedd yn gofalu am y lluniaeth a diolchwyd iddynt gan Mrs Latham. Enillwyd y raffl gan Mrs Joyce Ransom. Terfynwyd gyda gweddi. Bydd y cyfarfod nesaf nos Lun, 5 Chwefror, yn yr Ysgol Gymuned.

Diolch: Dymuna Mrs Katie Watkins ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a'i chydabod am gofio amdani yn ystod cyfnod y Nadolig. Diolch am y cardiau, dymuniadau da a'r ymweliadau. Dymuna flwyddyn newydd dda i bawb.

Yr Urdd: Ar noson ei phen-blwydd daeth Mrs Bethanne Williams atom i gynnal noson o ddawnsio gwerin. Diolchwyd iddi am noson ddifyr a phrysur gan Leanne a Craig.

Yng nghystadleuaeth pêl-droed 5-bob-ochr aeth dau dîm o'r ysgol i Fangor yn ogystal â thîm pêl-rwyd. Diolch i bawb gymerodd ran ac i Mr Nigel Griffith a Mrs Avril Jones am ofalu am y timau. Llongyfarchwn tîm Arwyn, Michael, Dylan, Karl, Mathew a Josh am ennill dwy gêm a chael un gêm gyfartal. Roedd nifer dda o dimau yn y gystadleuaeth ond colli wnaeth yr hogia yn rownd yr wyth olaf.

Newyddion o'r Ysgol: Hoffem ddiolch o galon i bawb gefnogodd ein gweithgareddau cyn y Nadolig. Braf iawn yw cael cyhoeddi fod y Ffair, dau berfformiad o'r cyngerdd a chanu carolau o gwmpas y pentref wedi codi dros £1,000. Trosglwyddwyd yr arian i gronfa Keith. Mae Margaret a Gwilym yn mawr werthfawrogi haelioni a charedigrwydd holl bobl a phlant yr ardal. Anfonwn ein cofion annwyl at Keith sydd ar hyn o bryd adref yn Bryn — gan ddal i ddymuno'r gorau iddo tra'n parhau ei driniaeth.

Braint i nifer o blant yr ysgol oedd cael rhannu llwyfan gyda Hogia'r Wyddfa mewn cyngerdd a drefnwyd gan Eglwys St. Gabriel yn ddiweddar. Perfformiwyd gan driawd pres, parti recordyddion a'r côr. Cafwyd noson gofiadwy iawn a hwyliog.

Croeso mawr i Amelia a Kane yn



Rhai o blant yr ysgol yn rhannu llwyfan â Hogiau'r Wyddfa.

ôl atom i'r ysgol ar ôl treulio tymor yn y Ganolfan i Ddysgwyr ym Maesincla. Diolch i Mrs Heulwen Morgan a Mrs Blodeuwedd Wyn am roi cystal gafael iddynt ar y

Gymraeg.

Enillwyd Clwb yr Ysgol am fis Rhagfyr oedd Gwilym Williams, Bryn, a Rhodri ap Llwyd, Glasgoed.

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. 870580

Camera yng ngofal Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. Ffôn: 677263

Eglwys M.C. Brynrefail: Cafwyd oedfa i ddathlu'r Nadolig brynhawn Sul, Rhagfyr 17, dan nawdd aelodau a phlant yr Eglwys. Roedd y rhannau agoriadol dan ofal Mr a Mrs Gwyn Hefin Jones, Einir a Catrin Gwyn. Yn dilyn cymerwyd rhan gan Alwen Roberts a Caron Jones, Mr R. W. Evans, Mrs Mair Davies, Mr Norman Williams, Mrs Lowri P. Roberts Williams, Mrs Dwynwen Williams, Mrs Ellen George a Mr David G. Ellis. Cafwyd cyfraniad gan blant yr Ysgol Sul: Caryl ac Awen Jones, Dylan Davies, Ceri Roberts, Rhian George, Elen Williams ac Amy Lambert, dan ofal eu hathrawon Mair Davies ac Alwen Roberts. Cyflwynwyd anrhegion i'r plant ar ran yr Ysgol Sul gan drefnydd yr oedfa Mrs J. A. Roberts.

Fore Sul, Rhagfyr 24ain, ymunodd nifer o'r aelodau mewn gwasanaeth Nadolig yng Nghapel y Rhos, Llanrug.

Bydd oedfan Sabothol Chwefror fel a ganlyn gyda'r Ysgol Sul am 2 o'r gloch:

CHWEFROD

4. Parchg S. O. Hughes, Bethel (5.30)

11. Parchg W. R. Williams, Y Felinheli (5.30)

18. Parchg Oswyn Rees, Bangor

(10)

25. Parchg Dilys Myfanwy Davies, Y Felinheli (10)

Cofion: Anfonwn ein cofion at Mrs Nellie Parry, Gwynfa, sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd yn dilyn damwain a da yw deall ei bod yn gwella'n raddol. Llongyfarchwn hi hefyd mewn cyfnod o anhwylder ar dathlu ei phen-blwydd yn 90 oed ar Ionawr 15fed.

Sefydliad y Merched: Cyfarfu'r gangen leol yn y Festri nos Lun, Ionawr 15fed. Roedd y noson yng ngofal y llywydd, Mrs Pat Jones, pryd cafodd yr aelodau gyfle i gynllunio cardiau drwy ddefnyddio blodau sych. Darparwyd y te gan Mrs Dwynwen Williams a Mrs Lynn Jones. Enillwyd gwobr y mis, rhoddedig gan Mrs Gwyn Edwards, gan Mrs Lynn Jones. Cynhelir Cyfarfod Blyneddol Ffederasiwn Sefydliad y Merched Arfon yn Ysgol Brynrefail ar Chwefror 3ydd. Bydd y gangen yn dathlu Gŵyl Ddewi gyda chinio nos Wener, Mawrth 1af. Atgoffir yr aelodau am y cyrsiau penwythnos a gynhelir ym Mhlas Tanybwllch, Mawrth 15fed - 17eg. Y cyrsiau sydd ar gael yw ffotograffiaeth, drama a gwniadwaith.

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

Y GORLAN
FFRWD CAE DDU
BONTNEWYDD
(01286) 830412



SIOP GREFFTAU A CHAFFI ANTUR WAUNFAWR

Basgedi Blodau Sych ★ Siwti
Jams ★ Briwgig ★ Siampw,
Clustogau ★ Ewyn Baddon
Olewon Aromatherapi
Teganau Meddal ★ Mobiles Pren

Ar agor LLUN — GWENER 9 a.m. - 4 p.m.

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ (i arbed
colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR (i arbed
colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD (i
arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor
rhad yw cost yswiriant gyda CDH

Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)

Ffôn: (01248) 355055

DINORWIG

Glyn Tomos, Pen y Bwlch, Ffôn: 870576

Dathlu Pen-blwydd: Llongyfarchiadau i Dafydd Wyn Jones, 5 Bro Elidir, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed cyn y Nadolig. Gobeithio iti gael dathliad i'w gofio.

Dyweddi: Llongyfarchwn Anwen Jones, 4 Bro Elidir ar achlysur ei dyweddiad yn ddiweddar ag Arwel Hughes o Lanberis. Dymuniadau gorau i'r ddau ohonoch yn y dyfodol. **Llongyfarchiadau** i David J. Thomas, 8 Maes Eilian gynt, ond yn awr o Blas Pengwaith, ar gyrraedd ei ben-blwydd yn 80 oed ar Ionawr 8. Roedd staff y cartref wedi bod mor garedi â pharatoi parti ar ei gyfer. Gobeithio iddo gael diwrnod wrth ei fodd.

Parti Nadolig: Mwynhaodd plant Ysgolion Sul Sardis a Dinorwig M.C. de parti Nadolig yn y Ganolfan ychydig ddyddiau cyn yr Ŵyl. Darparwyd y te gan chwirydd ieuengaf Sardis a daeth Siôn Corn yno i rannu anrhegion i'r plant.

Colli Aelod: Trist yw cofnodi i Gapel Sardis gollu i'n o'u haelodau, sef Abraham Meredydd Jones, Foel Gron, a fu farw'n blygeiniol ar ddydd olaf 1995 yn 71 oed. Treuliodd ei holl fywyd yn Ninorwig — ar wahân i'r blynyddoedd pan wasanaethodd yn y Fyddin yn Burma — gan weithio yn y chwarel ac yn ddiweddarach yn cadw defaid ar lethrau'r Foel. Bu'n wael ei iechyd ers peth amser ond ni ildiai i'w salwch a chariodd ymlaen gyda'i waith i'r diwedd.

Daeth torf luosog iawn i'r gwasanaeth angladdol yn Sardis ar Ionawr 5. Ei weinidog, y Parchg Olaf Davies, oed yn gofalu am y gwasanaeth ac fe dalodd deyrnged iddo drwy gymharu nodweddion ei fywyd â nodweddion y defaid mynydd yr oedd yn berchen arnynt — yr oedd yn wydn, yn gwrthod ildio, yn benderfynol ac ystyfnig; roedd yn adnabod ei gynefin ac yn ddyn ei gynefin; bywyd ar y llethrau oedd ei fywyd ac yntau'n hapus yn ei filltir sgwâr gan warchod ei deulu a'i gapel; estynnai groeso a chwarteisi gydag ysbryd hael, egwyddorol a chymdogol. Cymerwyd rhan hefyd gan y Parchedigion Ifor L. Williams a William J. Lewis. Rhoddwyd ei weddillion i orffwys ym mynwent Macpela.

Estynnwn gydymdeimlad dwys i'w briod, Mrs Elizabeth Jones, y plant, y wyrion a'r wyresau, ei

chwaer, a'r teulu i gyd yn eu profedigaeth. (Diolch i Miss E. W. Jones am yr adroddiad uchod.)

Y Gymdeithas Undebol: Mae Miss Marian Jones yn garedig iawn wedi paratoi yr adroddiad canlynol am weithgareddau'r Gymdeithas — Canu Carolau: Ar Ragfyr 14 cafwyd noson o ganu carolau yng nghwmni Seindorf Arian Deiniolen yn y Ganolfan. Braf iawn oedd gweld y lle yn llawn. Yn ystod yr egwyl cafwyd paned o de, bara brith a mins peis. Llywydd y noson oedd Mrs Betty Peris Roberts a thalwyd y diolchiadau gan Miss Marian Jones a diolchodd i'r Seindorf am fod mor barod bob amser i ddod atom i Ddinorwig; a chan iddynt gael blwyddyn llwyddiannus iawn yn 1995 dymunwyd yr un llwyddiant iddynt yn 1996. Trefnwyd y noson gan Mrs Dilys Williams a Mrs Betty Peris Roberts. Rhaid peidio anghofio 'chwaith y dyn-golchi-llestri, sef Mr Ellis Wyn Williams. Diolch El a phob lwc eleni hogia.

Cyfarfod Gweddi: Ar nos Fercher, 17 Ionawr, cynhaliwyd Cyfarfod Gweddi dechrau'r flwyddyn yn y Ganolfan lle roedd nifer dda yn bresennol. Roedd y cyfarfod dan ofal Eglwys M.C. a chymerwyd y rhan agoriadol gan Miss Marian Jones. Ar ddechrau'r cyfarfod cydymdeimlwyd â Mrs Elizabeth Jones, Foel Gron, a'r teulu yn eu profedigaeth o golli priod, brawd a thad. Cafwyd y fraint o ddefnyddio yr astell, am y tro cyntaf, a daeth hyn a'r diweddar Ren yn fyw i'r cof. Cafwyd noson hynod fendithiol a chymerwyd rhan gan Mrs Karen Jones, Mrs Betty Peris Roberts, Mrs Megan Morris, Miss Morfudd Jones, Mrs Rene Morris a Mrs Katie Lloyd Hughes. Cyfeiliwyd gan Mrs Dilys Williams a chafwyd canu rhagorol. Gweddiwyd ar ran Margaret a Gwilym a Keith o Gwm-y-glo a gofynnwyd i Dduw roi nerth iddynt yn yr oriau tywyll yma gan fendithio'r sawl sy'n gweini arno, gan ddymuno adfer ei iechyd drachefn.

Yn ystod mis Chwefror bydd y Gymdeithas yn cyfarfod nos lau, 8 Chwefror, pryd y disgwylir Mrs Grace Davies, Bethesda, i sôn wrthym am Affrica. Llywydd y noson fydd Mrs Megan Morris. Yna ar 22 Chwefror disgwylir croesawu Cwmni Drama Llanberis. Dwy noson

NANT PERIS

Elwyn Searell Jones, Dwyfor Ffôn: 870440

Alun Wyn Hughes. Yn dawel yn ei gartref, Hafod Gynfor, bu farw Alun Wyn Hughes ar 30 Rhagfyr yn 77 mlwydd oed. Yn enedigol o Gwm-y-glo (brawd y ddiweddar Ceridwen Hughes) treuliodd y rhan helaethaf o'i oes yma yn y Nant. Bu'n aelod ffyddlon ac yn organydd ffyddlon yn Eglwys Sant Peris am gyfnod maith. Bu'r angladd ddydd Gwener, 5 Ionawr, yn Eglwys Sant Peris gyda'r Parchg Idris Thomas, Trefor a'r Parchg Glyn Morgan, Meifod, yn gwasanaethu a'r organydd oedd Mr Selwyn Davies. Rhoddwyd i orffwys ym mynwent newy Nant Peris.

Dymuna ei briod, Megan Wyn Hughes, a'i fab John Wyn Hughes, ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag

atynt yn eu profedigaeth. Diolch hefyd i Mr Myrddin Pritchard a Gwynfor am y trefniadau trylwyr.

Jenny May Williams. Bu farw Mrs Jenny May Williams, gynt o Cae Perthi, Nant Peris, yng nghartref ei merch, Gwenda May, ym Mynydd Llandegai ar yr ail o Ionawr, 1966. Fe'i ganed yn y Nant a threuliodd y rhan fwyaf o'i hoes yn y dyffryn. Merch hynaf Hafod Gynfor ydoedd ac wedi ei phriodas â Mr John Closs Williams symudodd i fyw i Cae Perthi. Bu'r anglad yn Eglwys a mynwent St. Peris ar y chweched o Ionawr.

Cydymdeimlwn â'i mab William Arthur Williams a'i deulu; Gwenda May Evans a'i theulu; Mr Arthur Williams a Mrs Megan Hughes, yn eu profedigaeth.

i edrych ymlaen antynt.

Llythyr o Ddiolchgarwch: Anfonodd Miss Marian Jones llythyr i Gyngor Sir Gwynedd gan ddiolch i'r hogia fu'n graeanu'r ffyrdd yn ystod y tywydd garw dros y Nadolig, gan na fu iddynt fethu un diwrnod a thrwy hynny ei gwneud yn bosib i'r ardalydd drafaelio yn ddidrafferth. Cafwyd ymateb diolchgar iawn i'r llythyr gan un o swyddogion Adran y Prifffyrdd am inni fod mor garedig a chydabod eu gwaith caled yn ystod gwyliau'r Nadolig.

Cydymdeimlo:

— â theulu y ddiwedd Mrs Elizabeth Jones, Tan y Marian, fu farw ar 3 Ionawr yng Nghartref Nyrsio Penisarwaun. Bu'r angladd ar 8 Ionawr gyda gwasanaeth yn Eglwys St. Pedr, Penrhosgarnedd, ac yna ym Mynwent Glanadda.

— â theulu y diwedd Barchedig W. Emrys Edwards, Menai, Ffordd Campbell, Caernarfon, fu farw 7 Ionawr. Bu'r angladd yn Eglwys y Santes Fair, Caernarfon ar 11 Ionawr ac yna yn Amlosgfa Bangor. Cofiw'n yn arbennig amdano yn Ninorwig am ei gadwyn o englynion cofiadwy a gyfansoddwyd ac a ddarlennwyd ganddo yng ngwasanaeth olaf Eglwys St. Mair, ar brynawn Sul, 16 Hydref 1994.

— â theulu y ddiwedd Mrs Eileen Phillips fu farw ar 18 Ionawr yn Nhyddyn Elan, Llanrug. Bu Mrs Phillips a'r teulu yn byw yn 6 Maes Eilian am flynyddoedd, cyn iddi

symud i Dyddyn Elan. Mae dau o'r plant, sef Ifor a Margaret, yn dal i fyw yn Ninorwig. Cofir am Mrs Phillips fel aelod ffyddlon iawn o Eglwys St. Mair ac yn un a fu'n weithgar iawn gydag Undeb y Mamau. Bu'r angladd yn Eglwys Crist, Llandinorwig, ar 24 Ionawr ac ym mynwent Nant Peris.

Gwellhad Buan i nifer ohonoch na fu'n mwynhau iechyd da yn ddiweddar a hynny, yn bennaf, oherwydd y fflw. Rydym yn falch o weld Mr Evan Bryn Roberts, Tŷ'r Ysgol, yn gwella wedi'r driniaeth i'w lygad yn Ysbyty Gwynedd.

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: C'fon 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

CAFFI "BWYTY ERYRI"
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau
Priodas, Bedydd
Pen-blwydd ac ati
Peis, Rholiau Sosej
Pasteiod, Teisennau Hufen
Teisennau Plât, Torth Gyrains ac ati

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

+


J.M.
JONES
A'I FEIBION
GWAITH
CERRIG
BEDDAU

Y SGWÂR LLANRUG

Crefftwyr gwaith llaw traddodiadol
Cerrig o bob math ar gael

Ffôn:
C'fon 672898 (dydd)
C'fon 676285 (nos)

CROESAIR CHWEFROR




AR DRAWS

- 1. Chwarter blwyddyn (5)
- 6. Tafodrydd (5)
- 9. Adfywio dau Bedr (7)
- 10. Mae'r lliw o gwmpas dechrau lonawr yn wenwynllyd (5)
- 11. O ddyfnder yr lwerydd, ond mae'n llawer iawn uwch (5)
- 12. Talu sylw (5)
- 13. Ystafelloedd i chwarae doctors a nyrsus ynddynt? Na, ond celloedd rhyw er hynny (7)
- 15. Mantell, ond heb orchudd dros y canol (3)
- 17. Hen elor (4)
- 18. Yr hyn a wnaed i'r hen sofren chwarter canrif yn ôl (6)
- 19. Merch o briodas y ficer enwog a'i wraig gyntaf (5)
- 20. Planc (6)
- 22. Gweler y nodiadau.
- 24. Hyd nes y rhoi'r to arno, ni fydd yn gynnes (3)
- 25. Llestri te go iawn! (7)
- 26. Bae (5)
- 27. Yr hyn a geir yn 25 ar draws (5)
- 28. Dirmyg (5)
- 29. Yn y gwyn, yn y plisgyn! (7)
- 30. Addurn wedi ei falu, ond mae'n parhau'n brydferth (5)
- 31. Difetha drwy weithred y tywydd (5)

I LAWR

- 2. Nai sydd yn dangos ble mae'r gadeirlan (1,5)
- 3. Rhagorol (6)
- 4. Cystadleuaeth a gynhelir rhwng diwedd nos Wener a dechrau'r Sadwrn (3)
- 5. Bwyell gam (5)
- 6. Yr hyn a adewir ar ôl rhwygo'r croen (7)
- 7. Gorchuddio â metel gwerthfawr (4)
- 8. Diffyg gwres (6)
- 12. Y felan yn deillio o gymal enllibus (5)
- 13. A'i y rhain a hudodd y ddau gi bach i'r coed? (5)
- 14. Smôc (5)
- 15. 25c ar ben Liz, ac mae ei phen ar ddwbl hynny (5)
- 16. Yr hyn sy'n gyffredin rhwng brain a drain (5)
- 18. 'O! ---- oll ynghyd / Yn unfryd ger ei fron; Hiraethog (5)
- 19. Cnocell y coed (7)
- 21. Ebill mawr a ddefnyddir gan saer i dyllu coed (6)
- 22. Cerddwyr (6)
- 23. Cyfansoddi molawd am ymlusgiaid (6)
- 25. Oherwydd (5)
- 26. Yr hyn a wna 22 i lawr (4)
- 28. Peth wedi ei wau (3)

CROESAIR Y NADOLIG



Maddeuwch i mi am beidio a chynnwys enwau'r rhai a lwyddodd i gwblhau croesair y Nadolig. Byddai gwneud hynny yn mynd a'r holl dudalen bron, gan fod hanner cant, namyn dau, wedi gyrru eu hatebion cywir ataf. Llongyfarchiadau i chwi i gyd.

Nid tasg hawdd oedd creu cliw cryptig i'r gair 'DUAF', ac rwy'n hynod o falch nad myfi sy'n gorfod

datrys croeseiriau rhai ohonoch chi, gan na fyddai syniad gennyf sut i ateb: DYCHYMYG UNIGRYW A FEDDA'R DYN; na NESAU?; na YR HEN FILWYR WEDI DRYSU A CHOLLI EI BEN (EUDAF efallai?)

Ceisiodd dau dynnu'r gair GAD allan o AFAGDDU gan adael anagram o DUAF, ond mae hynny'n anghywir, gan mai un llythyren ydi DD, ac ni chaniateir ei rhannu yn ddwy D.

Fe sylwedolodd dau arall fod gair y De am IAU, sef AFU yn bresennol, gan ffurfio cliwiau o gwmpas hynny.

Mae cliw Elfed Evans, Llanllechid yn hynod o glyfar, sef 'Prifddinas agos heb bwl, ac rwy'n mynd i'r nos eithaf,' (DULYN heb lyn, ac AF am rwy'n mynd); ac un Ceinwen Williams, Bethel, yn glyfar yn ei symylrwydd 'Y glanhawr simdde gorau?'

Mae Mrs G. Gill, Bangor, a Mrs Mary Davies, Waunfawr, wedi setlo am anagram, sef UDAF: 'Gwnaf oernad chwithig'; a 'Udaf yn flêr yn y gwyll.'

Dyddiader y Mis

CHWEFROR

- 2. Gwener **DEINIOLEN:** Noson Goffi yn yr Ysgol a'r elw tuag at Gronfa Keith Williams. **LLANBERIS:** Noson Carioci yng Ngwesty'r Fictoria am 8 o'r gloch (pwyllgor lleol Gŵyl Gerdd Dant Caernarfon 1996)
- 5. Llun **CWM-Y-GLO:** Undeb y Mamau. Cyfarfod yn yr Ysgol Gymuned. **DEINIOLEN:** Undeb y Mamau yn Eglwys Llandinorwig am 7.
- 6. Mawrth **LLANBERIS:** Y Gymdeithas Undebol yn Festri Capel Coch am 7 o'r gloch. Darlith gan Guto Roberts, Rhos-lan.
- 7. Mercher **LLANRUG:** Plaid Cymru. Sgwrs gan Y Cyng. Eurig Wyn, Waunfawr.
- 8. Iau **DINORWIG:** Y Gymdeithas. Sgwrs gan Mrs Grace Davies, Bethesda.
- 9. Gwener **PENISARWAUN:** Eisteddfod Bentref, Neuadd Gymuned, 6 p.m. **CAEATHRO:** Dafydd Iwan a'i Fand yng Nglangwna.
- 12. Llun **DEINIOLEN:** Cyngor Eglwysi: Capel Ebeneser am 7 o'r gloch. Sgwrs gan y Parchg Glyndwr Williams.
- 13. Mawrth **LLANRUG:** Merched y Wawr. Cyffuriau ac Iechyd Merched, gan Fiona Johnson.
- 14. Mercher **BETHEL:** Merched y Wawr — Aerobics gyda Delyth Evans
- 19. Llun **WAUNFAWR:** Y Gymdeithas Lenyddol. Sgwrs gan Meirion Hughes, Caernarfon, 'Colera yng Nghaernarfon'. **DEINIOLEN:** Merched y Wawr — sgwrs gan Mrs Eirian Larsen, Caernarfon.
- 20. Mawrth **LLANRUG:** Radio Cymru yn recordio 'Talwrn y Beirdd' yn Neuadd yr Ysgol Gynradd am 7.15 o'r gloch.
- 22. Iau **DINORWIG:** Y Gymdeithas. Cwmni Drama Llanberis.
- 23. Gwener **LLANBERIS:** Noson Bingo yng Ngwesty Dolbadarn (pwyllgor lleol Gŵyl Cerdd Dant Caernarfon 1996).
- 26. Llun **DEINIOLEN:** Y Gymdeithas. Sgwrs gan D. Whiteside Thomas, Llanrug.

RHODDION

- £30: Er cof am Mrs Mair Eluned Owen, Bod Awen, Llanberis gan ei merch Mrs Ceridwen Jones a'r teulu, Wrecsam.
- £10: Er cof am Mr Alun Wyn Hughes, Hafod Gynfor, Nant Peris, gan ei deulu. Nancy, Elfed a Jennifer, Llanberis. John Morris a theulu y ddiweddar Mrs Elizabeth Morris, Rhiwen, Deiniolen.
- £5: Mrs Maggie Hughes ac Elizabeth, 2 Rhos y Faenol, Llanberis. Er cof am Mrs Jenny May Williams (gynt o Cae Perthi, Nant Peris) gan ei theulu. Arwyn a Berwyn Roberts, Clegyr, Ffordd yr Orsaf, Llanrug. Mrs Nancy Hughes a Michael, er cof am Mr Cledwyn Hughes, Maes Padarn, Llanberis.
- £3: Evan ac Eirwen Williams, Bryn Gro. Dilys Williams, 19 Hafan Elan, Tyddyn Elan, Llanrug.

TRIN GWALLT YN EICH CARTREF
MERCHED ★ DYNION ★ PLANT

Lynette Evans

GARNET, LLANRUG

Ffôn: 673981/675807

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

PERCHNOGION: DANNY A NERYS ROBERTS

LLE DA I WLEDDA

Beth am Fwffe Enwog Nerys (rhwng 20 - 70) i ddathlu pen-blwydd neu ben-blwydd priodas Partïon rhwng 20 a 40. Ffoniwch am fanylion. Cofiwch am nosweithiau arbennig y Bistro — nos Wener olaf bob mis

Pa un yw'r gora'? Wel, y brifddinas ydi'r un sy'n aros yn y cof, ac felly i Elfed Evans, 12 Hen Barc, Llanllechid, Bethesda, yr â £5 am groesair y Nadolig.

Y mis yma, lluniwch gliw cryptig i'r gair fydd yn ymddangos yn 22 ar draws ar ôl cwblhau'r croesair, a gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Caernarfon, erbyn Chwefror 19.

Cefnogwch
ein
Hysbysebwy

